

**Adolygiad o sut mae  
Llywodraeth Cymru  
yn ymarfer ei  
swyddogaethau,  
gan Gomisiynydd  
Plant Cymru**

Chwefror 2021



**Comisiynydd  
Plant Cymru  
Children's  
Commissioner  
for Wales**

# Rhagair

## Gan yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru

Ers i mi gael fy mhenodi, fy null gweithredu fel Comisiynydd Plant fu gweithio gyda'r llywodraeth fel ffrind beirniadol; amlygu gwendid mewn systemau a ddylai fodoli i ddiogelu hawliau plant a seilio fy marn a'm hargymhellion yn gadarn ar dystiolaeth gref. Mewn llawer iawn o feysydd polisi mae'r dull hwnnw wedi gweithio i gyflawni newid er budd i blant a phobl ifanc. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae fy nhîm a minnau wedi ceisio gweithio gyda'r llywodraeth i roi newidiadau yr ydym ni'n credu eu bod yn hanfodol ar waith, er mwyn sicrhau bod plant sy'n cael eu haddysgu gartref nid yn unig yn cael eu hamddiffyn, ond hefyd yn cael mynediad i'r addysg orau. Yn ystod y pum mlynedd hynny bu llawer o weithgarwch, ond dim cynnydd gwirioneddol. Gwaetha'r modd, wrth gyrraedd 2021 mae prosesau addysgu gartref dewisol yr un mor ddiffygiol o ran rheoleiddio ag yr oeddent ar adeg marwolaeth drychinebus plentyn wyth oed yn 2011.

Ers clywed profiadau uniongyrchol person ifanc oedd yn mynychu ysgol annibynnol yn 2019, ac amlygu yn sgîl hynny fylchau a fu'n bodoli ers bron dau ddegawd yng ngweithdrefnau diogelu'r sefydliadau hyn, rwyf wedi ceisio gweithio gyda'r llywodraeth i weithredu newidiadau y mae angen mawr amdanynt yn y sefydliadau annibynnol hyn.

Ond er gwaethaf cyflwyno barn, tystiolaeth, awgrymiadau ac argymhellion, mae'r sefyllfa mewn perthynas â dewis addysgu gartref ac ysgolion annibynnol yn dal yr un fath.

Nid ar chwarae bach y gwnaed y penderfyniad i gychwyn yr Adolygiad hwn, y cyntaf o'i fath gan y swyddfa hon, yn ystod argyfwng iechyd byd-eang. Roeddwn i'n gwbl benderfynol na ddylai ymdrechion y llywodraeth gael eu cyfeirio oddi wrth y pandemig, ac fe wnes i sicrhau bod methodoleg yr adolygiad yn galw am isafswm o adnoddau a gweithredu gan Lywodraeth Cymru.

Ond y broblem gyda'r diffyg cynnydd ar y ddau faes polisi penodol hyn yw nad materion newydd yw'r rhain y deuwyd â hwy at sylw'r llywodraeth yn ddiweddar. Maent yn rhychwantu dau o dymhorau'r llywodraeth. Er fy mod yn cydnabod bod llawer iawn o adnoddau'r llywodraeth wedi cael eu dargyfeirio i ymateb i'r pandemig, fy mhryder i yw mai oedi hirsefydlog sydd yma, ac y gallai barhau yn y blynyddoedd sydd i ddod heb ymdrech bendant i roi sylw i'r materion a amlinellwyd yn fy adroddiad.

Wrth i ni nesáu at dymor newydd i Lywodraeth Cymru, dim ond un opsiwn oedd ar ôl i'm swyddfa: adolygu camau gweithredu'r llywodraeth mewn perthynas â'r materion hyn, gyda'r nod o sicrhau dealltwriaeth o sut mae'r meysydd polisi hyn wedi methu gwneud cynnydd, a map clir o'r llwybr y mae angen ei ddilyn ar frys yn ystod rhaglen waith y llywodraeth newydd ei hethol.



Trwy gynnal yr adolygiad hwn rwy'n rhoi cyfle i'r Llywodraeth nesaf sicrhau agenda glir ar gyfer y materion hyn o gychwyn cyfnod a fydd yn sicr yn un heriol.

Byddai'n gam gwag pe na bawn i'n cloi'r adran hon â neges eithriadol bwysig i ddisgyblion a all fod yn derbyn eu haddysg gartref neu sy'n mynychu ysgolion annibynnol yng Nghymru: fy nod gyda'r gwaith hwn yw diogelu rhai o'ch hawliau sylfaenol, nid yn unig i gael eich cadw'n ddiogel ac yn iach, ond hefyd i dderbyn yr addysg orau ac i gael eich barn a'ch safbwyntiau wedi'u clywed. Rwyf wedi siarad â llawer ohonoch sydd naill ai'n derbyn addysg gartref neu sy'n cael eich addysgu mewn ysgol annibynnol, ac sy'n teimlo'n ddiogel, yn cael profiadau gwych, ac yn ffynnu — rwyf fi am sicrhau bod Cymru'n wlad sy'n cynnig hynny i bob plentyn.

## Diolchiadau

Wrth gynnal yr Adolygiad hwn, rydym ni'n ddiolchgar i'r sefydliadau allanol sydd wedi anfon gwybodaeth a dogfennaeth atom i'n helpu i gyflawni'r dasg hon. Rydym hefyd wedi elwa o gyngor Paneli Ymgynghorol oedolion a phobl ifanc y Comisiynydd ar hyd y cyfnod pan fuom yn ystyried y materion polisi a gwaith achosion sy'n cael eu cwmpasu gan yr Adolygiad hwn.

Mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (PPIA) y Senedd wedi cadw llygad manwl ar y meysydd polisi hyn ar hyd pumed tymor y Senedd, ac rwy'n ddiolchgar i aelodau'r Pwyllgor yn awr ac yn y gorffennol am eu dyfalbarhad yn eu hymholiadau, eu cwestiynau ysgrifenedig a llafar, a'u craffu trylwyr ar y Llywodraeth a'm swyddfa innau yn y meysydd polisi pwysig hyn yng nghyswllt hawliau plant.



# Cynnwys

---

	<b>Tudalen</b>
Crynodeb Gweithredol	<b>5</b>
Rolau'r Comisiynydd Plant a Llywodraeth Cymru	<b>8</b>
Cefndir Polisi	<b>10</b>
Methodoloeg	<b>19</b>
Cronolegau	<b>22</b>
Ystyried a dadansoddi camau gweithredol y Llywodraeth	<b>23</b>
Canfyddiadau'r adolygiad	<b>36</b>
Argymhellion	<b>44</b>
Camau nesaf	<b>47</b>
Atodiad A	<b>48</b>
Ôl-nodiadau	<b>55</b>



# Crynodeb Gweithredol

Yr Adolygiad hwn yw'r tro cyntaf i'r swyddfa ddefnyddio'r pŵer i adolygu sut mae Llywodraeth Cymru yn ymarfer ei swyddogaethau o dan Adran 72B o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Cynhaliwyd yr Adolygiad mewn perthynas ag ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Ymarfer Plant Dylan Seabridge, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016, gweithredu eu hymrwymadau cyhoeddus yn dilyn hynny, y sail ar gyfer penderfyniadau cysylltiedig â meysydd polisi addysgu gartref ac ysgolion annibynnol yn Llywodraeth Cymru, ac ystyried hawliau plant o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ar draws y gwaith hwn i gyd.

Mae fy nhîm a minnau wedi adolygu dogfennau sydd yn y parh cyhoeddus ac ym meddiant fy swyddfa, yn bennaf yn dyddio nôl i 2015, er bod rhai dogfennau cynharach hefyd wedi cael eu hystyried yn berthnasol.

Er gwaethaf nifer o gamau a gymerwyd gan y Llywodraeth, rwyf wedi dod i'r casgliad mai ychydig iawn o gynnydd sylweddol a wnaed, os o gwbl, yn y naill na'r llall o'r ddau faes polisi sy'n cael eu hystyried (addysgu gartref ac ysgolion annibynnol).

## Addysgu gartref

Mae ymgynoriadau ar ddiwygio'r canllawiau ar gyfer addysgu gartref yng Nghymru wedi bod yn cael eu hystyried ar hyd fy nghyfnod fel Comisiynydd. Mae llawer o waith wedi digwydd yn Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r maes polisi hwn, ond effeithiwyd ar y gwaith hwn gan oedi, diffyg eglurder o ran bwriad y polisi, a mynd ar ôl dull gweithredu oedd yn defnyddio pwerau deddfwriaethol presennol, sydd wedi cyfyngu ar allu'r Llywodraeth i gyflawni eu nodau polisi yn llawn. Yn ein barn ni, bu hefyd ddiffyg eglurder o ran y nodau polisi hynny. Y rheswm am hynny yw nad yw'r gwaith polisi bob amser wedi cyfeirio'n ôl yn benodol at argymhellion adolygiad ymarfer plant Dylan Seabridge, oedd yn argymhell y dylai pob plentyn y dewisir eu haddysgu gartref gael eu gweld, ac y dylid siarad â nhw a chofnodi eu dymuniadau yn flynyddol.

Amlygodd adroddiadau pellach ac ymatebion ymgynghori yr un materion, felly bu gan y Llywodraeth fap clir o'r llwybr a'r newidiadau angenrheidiol sy'n ofynnol. Ar y cychwyn, dewisodd y Llywodraeth wneud newidiadau o dan bwerau yn y deddfwriaeth bresennol; mae'r Adolygiad hwn wedi dangos y diffygion yn y dull gweithredu hwnnw. Bwriad arall y dull gweithredu oedd cyflawni newidiadau yn gyflymach na thrwy greu deddfwriaeth sylfaenol newydd.



Gwaetha'r modd, y canlyniad net mewn gwirionedd yw na chyflawnwyd newid sylweddol mewn unrhyw fodd. Bydd y mater hwn yn symud ymlaen i drydydd tymor olynol y Llywodraeth, ac yn cael ei ystyried eto.

Wrth benderfynu peidio â symud ymlaen gyda newidiadau i'r canllawiau a'r rheoliadau yn 2020, methodd y Llywodraeth ag ystyried hawliau plant fel rhan o'r penderfyniad hwnnw. Nid ymddengys eu bod chwaith wedi ystyried sut roedd y penderfyniad hwn yn effeithio ar waith polisi arall, fel canllawiau diwygiedig ar gyfer ymgysylltiad arferol plant â gwasanaethau cyffredinol.

## Ysgolion Annibynnol

O ran diogelu mewn ysgolion annibynnol, mae'r Adolygiad yn darparu tystiolaeth bod y Llywodraeth yn ymwybodol, ers hyd at 18 mlynedd, o'r angen am wneud newidiadau i gryfhau'r darpariaethau rheoliadol a diogelu y mae angen iddynt gydymffurfio â nhw. Hysbysodd Cyngor y Gweithlu Addysg (EWC) ni fod y corff oedd yn rhagflaenydd iddynt wedi codi'r mater hwn 18 mlynedd yn ôl. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth wedi methu â gwneud unrhyw newidiadau o'r fath, a hynny er gwaethaf achos difrifol a gododd yn 2019 mewn ysgol annibynnol yn Sir Ddinbych. Amlygodd gweithwyr proffesiynol a fu'n ymwneud â'r achos hwnnw pa mor wahanol byddai'r achos wedi cael ei drin petai ymddygiad y pennaeth wedi digwydd mewn ysgol a gynhelid.

Fel cofrestrwyd a chorff rheoleiddio, y Llywodraeth yn unig sydd â'r gallu i weithredu mewn perthynas â diffygion mewn ysgolion annibynnol, yn ogystal â dysgu gwersi a chryfhau'r safonau cyfreithiol y mae'n rhaid i'r cyfryw ysgolion gydymffurfio â nhw.

Cefnogwyd y cynigion i gofrestru athrawon o ysgolion annibynnol gyda Chyngor y Gweithlu Addysg mewn adolygiad a gynhaliwyd ychydig cyn diwedd pedwerydd Tymor y Senedd yn 2016. Fodd bynnag, ni symudodd y Llywodraeth newydd y cynigion hyn ymlaen, a bellach rydym yn cyrraedd diwedd pumed Tymor y Senedd heb i unrhyw gynnydd gael ei gyflawni.

Nid yw'r Llywodraeth eto wedi datrys y cwestiwn ynghylch ai deddfwriaeth sylfaenol neu eilaidd sy'n angenrheidiol i wneud y newidiadau hyn, felly nid oes cynnig clir yn barod i Lywodraeth newydd symud ymlaen gydag ef, er gwaethaf y ffaith bod cyfnod arall o bum mlynedd wedi mynd heibio.

## Canfyddiadau

Rwyf wedi gwneud canfyddiadau mewn perthynas â'r canlynol:

- Ystyriaeth annigonol o hawliau plant;
- Atebolrwydd proses ymgynghoriadau'r Llywodraeth;
- Diffyg ffocws ar y canlyniadau i blant wrth ddewis y llwybr deddfwriaethol mwyaf priodol ar gyfer newid polisi;
- Rheoleiddio ysgolion annibynnol gan Lywodraeth Cymru;



- Diffygion yn y gweithdrefnau ar gyfer rhannu a dysgu o Adolygiadau Ymarfer Plant;
- Pryderon parhaus ynghylch gweithio ar draws y llywodraeth; a
- Bylchau yn y fframwaith cyfreithiol sy'n cynnal pŵerau deddfwriaethol fy sefydliad fy hun i adolygu camau gweithredu Llywodraeth Cymru.

Rwyf wedi dod i'r casgliad bod Llywodraeth bresennol Cymru wedi methu ymateb yn ddigonol i'r canlynol:

- Y dysgu a nodwyd yn dilyn marwolaeth Dylan Seabridge yn 2011; a'r
- Y pryderon diogelu yng nghyswllt ysgolion annibynnol y buont yn eu hadolygu rhwng 2014 a 2016.

Drwy wneud hyn, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cydymffurfio â'i dyletswyddau cyfreithiol yn unol â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'n ofynnol bod y Llywodraeth, o dan Erthygl 4 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn "cyflawni pob mesur deddfwriaethol, gweinyddol ac arall priodol i weithredu'r hawliau a gydnabyddir yn y Confensiwn presennol" a'm canfyddiad innau yw nad yw hynny wedi digwydd.

Rwy'n disgwyl i'r Llywodraeth bresennol ymateb i'r adroddiad hwn o fewn 3 mis, cyn diwedd tymor y Senedd, yn unol â'm deddfwriaeth.



# ROLAU'R COMISIYNYDD PLANT A LLYWODRAETH CYMRU

---

Sefydlwyd swyddfa Comisiynydd Plant Cymru gan Ddeddf Safonau Gofal 2000<sup>i</sup>. Creu pencampwr annibynnol ar gyfer plant oedd un o argymhellion Adroddiad Waterhouse ar gam-drin plant yn gorfforol ac yn rhywiol mewn cartrefi gofal yng ngogledd Cymru, lle canfuwyd nad oedd neb wedi clywed eu lleisiau, gwranddo arnynt, na gweithredu ar sail hynny. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i sefydlu swydd o'r fath, sydd bellach yn ei lle yn holl wledydd y Deyrnas Unedig a Jersey.

Prif fwriad y rôl, fel mae'r ddeddfwriaeth yn nodi<sup>ii</sup> yw "diogelu a hybu hawliau a lles plant" yng Nghymru, wrth ymarfer eu holl swyddogaethau.

Ychwanegir at y darpariaethau yn y Ddeddf Safonau Gofal gan Ddeddf Comisiynydd Plant Cymru 2001<sup>iii</sup> a Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001<sup>iv</sup>. Mae'n ofynnol bod y Comisiynydd yn rhoi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn ei holl waith<sup>v</sup>.





Yng Nghymru, mae CCUHP wedi cael ei ymgorffori'n rhannol i ddeddfwriaeth Cymru trwy'r Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc 2011. Mae'r Mesur yn gofyn bod Gweinidogion Llywodraeth Cymru (a'u swyddogion wrth weithredu ar eu rhan neu roi cyngor iddynt) yn rhoi sylw dyledus i CCUHP.

Un o'r prif ffyrdd sydd gan y Llywodraeth o ddangos ei bod yn rhoi sylw i hawliau plant yw creu a chyhoeddi Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant (CRIA). Fodd bynnag, nid y CRIA ei hun yw dechrau a diwedd rhoi sylw dyledus; mae'n un ffordd o ddangos bod y sylw hwnnw wedi'i roi. Mewn geiriau eraill, nid yw cyhoeddi CRIA ynddo'i hun yn cyfateb i gyflawni dyletswyddau'r Llywodraeth o dan y Mesur.

Cynhaliwyd yr Adolygiad hwn yn unol â'r pŵer yn Neddf Safonau Gofal 2000, adran 72B (1):

*"Caiff y Comisiynydd adolygu'r effaith ar blant y mae'r Rhan hon yn berthnasol iddynt a gâi-*

*(a) arfer neu fwriad i arfer unrhyw swyddogaeth sydd gan [Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu Gwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru], gan gynnwys creu neu fwriad i greu unrhyw is-ddeddfwriaeth; neu*

*(b) arfer neu fwriad i arfer unrhyw un o swyddogaethau unrhyw berson y sonnir amdanynt yn Atodlen 2A mewn perthynas â Chymru.*"<sup>vi</sup>

Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer anfon unrhyw adroddiad a grëir o ganlyniad i Adolygiad o dan y pŵer hwn at Brif Weinidog Cymru a llyfngelloedd y Cynulliad (Senedd) a Dau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig.



# Y CEFNDIR POLISI

## A.Dewis Addysgu Gartref

### Gofynion yng nghyswllt rhieni

Y sefyllfa gyfreithiol yng Nghymru yw y caiff rhieni<sup>vii</sup> addysgu eu plant gartref, cyhyd â'u bod yn cyflawni gofynion adran 7 o Ddeddf Addysg 1996:

*Rhaid i riant pob plentyn oed ysgol gorfodol sicrhau y caiff addysg effeithlon amser llawn sy'n addas o ran — (a) ei oedran, ei allu a'i gymhwysedd, a (b) unrhyw anghenion addysgol arbennig a all fod ganddo, naill ai trwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu fel arall.*

Nid oes gofyn bod rhieni'n cofrestru nac yn ceisio cymeradwyaeth eu hawdurdod lleol nac unrhyw gorff arall i addysgu eu plant gartref. Yr unig eithriad i hyn yw achosion lle mae plentyn yn mynychu ysgol arbennig o dan drefniadau a wnaed gan yr Awdurdod Lleol ac mae rhieni'n ceisio dadgofrestru'r plentyn. Yn yr achos hwn, rhaid i riant sicrhau caniatâd yr awdurdod lleol cyn y caiff enw'r plentyn ei dynnu oddi ar gofrestr yr ysgol.<sup>viii</sup>

Os bydd plentyn wedi'i gofrestru mewn ysgol brif ffrwd pan fydd y teulu'n penderfynu addysgu gartref, nid oes angen unrhyw broses gymeradwyo ar y rhiant, a gall hysbysu'r ysgol yn ysgrifenedig er mwyn tynnu enw'r plentyn oddi ar gofrestr yr ysgol.<sup>ix</sup> Rhaid i'r ysgol hysbysu'r awdurdod lleol ynghylch y penderfyniad hwn o fewn 10 diwrnod ysgol.<sup>x</sup>

Os bydd rhieni'n penderfynu addysgu eu plentyn gartref cyn i'r plentyn gyrraedd oed ysgol, ac nid yw'r plentyn byth yn cael ei gynnwys ar gofrestr ysgol, nid oes rhwymedigaeth statudol o fath yn y byd ar y rhieni i hysbysu eu hawdurdod lleol, nac unrhyw gorff arall, ynghylch y penderfyniad hwn.

Pan fydd teuluoedd yn symud o un awdurdod lleol i un arall, nid oes dyletswydd ar y rhiant i hysbysu eu hawdurdod lleol newydd eu bod nhw'n addysgu gartref. Dylai'r rhai sy'n addysgu gartref fod yn barod i dderbyn cyfrifoldeb ariannol llawn am yr addysg, ac nid oes gofyn eu bod yn dilyn cwricwlwm na dull gweithredu penodol.

Nid yw'n ofynnol bod plant a addysgir gartref yn sefyll unrhyw arholiadau nac asesiadau cenedlaethol, er bod rhai pobl ifanc a addysgir gartref yn dewis sefyll cymwysterau cenedlaethol, ac yn wir, rai rhyngwladol.



Mae annog teuluoedd i addysgu gartref er mwyn osgoi gwaharddiad neu gosbau am ddiffyg presenoldeb yn arfer y cyfeirir ato weithiau fel 'tynnu oddi ar y gofrestr' (*off-rolling*). Rhoddir cyfarwyddyd clir i ysgolion beidio â bod yn rhan o'r arfer hwn mewn canllawiau statudol er mwyn helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017.<sup>xi</sup>

Mae'r arfer hwn hefyd y tu allan i'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwaharddiadau<sup>xii</sup> a'r defnydd o hysbysiadau cosb am ddiffyg presenoldeb rheolaidd.<sup>xiii</sup>

## Disgwyliadau awdurdodau lleol

Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn cynnig lefelau amrywiol o gefnogaeth i deuluoedd sy'n addysgu gartref, ac mae'r gefnogaeth hon a gynigir yn gallu cynnwys ymweliadau cartref, help i drefnu i sefyll cymwysterau, a chyfleoedd i rwydweithio a chymdeithasu. Fodd bynnag, nid yw awdurdodau lleol o dan unrhyw rwymedigaeth statudol i gefnogi darpariaeth lle dewiswyd addysgu gartref ei hun.

Wrth gyflawni eu dyletswyddau statudol ac ymgysylltu â theuluoedd sy'n addysgu gartref, neu a allai fod yn gwneud hynny, dylai awdurdodau lleol yng Nghymru roi sylw dyledus i ganllawiau anstatudol Llywodraeth Cymru, a gyflwynwyd yn 2017<sup>xiv</sup>. Mae'r canllawiau hyn yn annog gweithgareddau cefnogol fel y rhai a ddisgrifiwyd uchod, ond maent hefyd yn nodi, *'Nid yw ALLau yn derbyn cyllid ar gyfer plentyn sy'n cael ei addysgu gartref, ac nid oes rhwymedigaeth gyfreithiol arnyn nhw i ddarparu unrhyw gefnogaeth ariannol ar gyfer y plentyn hwnnw'*.

Mae'r canllawiau hefyd yn nodi camau y gallai awdurdod lleol eu cymryd pan fydd teulu'n penderfynu addysgu gartref, ac mae'r camau anorfodol hyn yn cynnwys cysylltu â'r teulu a chynnig ymweld â'r teulu. Nid oes rhwymedigaeth i deulu dderbyn yr ymweliad hwn. Yn ôl y canllawiau, *'Lle nad yw teulu'n dymuno ymgysylltu â'r ALL, dylai swyddogion addysg ystyried a oes angen cysylltu â gwasanaethau eraill fel bod modd rhannu gwybodaeth a allai amlygu unrhyw bryderon lles yng nghyswllt y plentyn neu'r teulu.'* Yn absenoldeb gwybodaeth sy'n amlygu pryder, mae'r canllawiau'n awgrymu bod yr awdurdod lleol 'yn ystyried ysgrifennu at y teulu bob 6-12 mis'.

Mae'r Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan<sup>xv</sup> yn datgan, mewn achosion lle mae tystiolaeth eisoes yn bodoli ynghylch pryder am blentyn sy'n cael ei addysgu gartref, y dylai'r awdurdod lleol, *'gyfeirio'r pryderon hyn ar unwaith at yr awdurdodau statudol priodol gan ddefnyddio protocolau sefydledig. Fel arall, dylai'r ALL ragdybio bod darpariaeth addysgol effeithlon ar waith, sy'n addas i'r plentyn, oni bai bod tystiolaeth fel arall. Nid yw'n benodol ofynnol o dan Ddeddf 1996 fod ALLau yn mynd ati i ymchwilio er mwyn gweld a yw rhieni'n cyflawni eu dyletswyddau o dan Adran 7.'*<sup>xvi</sup> Ymddengys bod y canllawiau hyn yn rhoi cyfeiriad mwy pendant i weithredu mewn achosion lle ceir pryder na chanllawiau anstatudol 2017, ond mae'n cyfeirio'n benodol oddi wrth weithredu er mwyn ymchwilio i weld a oes addysg addas yn cael ei darparu.



Fodd bynnag, mae Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru yn 2017 er mwyn helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg yn gwrthddweud y datganiad hwn<sup>xvii</sup>. Yma, nodir ym mharagraff 7.33 fod, *'Cyfraith achosion wedi sefydlu y gall awdurdod lleol holi rhieni'n anffurfiol os ydynt yn addysgu eu plant gartref, er mwyn sicrhau bod addysg addas yn cael ei darparu.* Fodd bynnag, mae'r un canllawiau hefyd yn nodi'n eglur ym mharagraff 7.35, *'Nad oes fframwaith cyfreithiol i'r AALL fonitro darpariaeth addysg gartref yn rheolaidd, na hawl mynediad awtomatig i gartref y rhieni i wirio safon yr addysg mae'r plentyn neu'r person ifanc yn ei derbyn.'*

Ceir dadansoddiad o wendidau'r dogfennau canllaw hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

## Adnabod plant sy'n colli addysg

Mae Adran 436A o Ddeddf Addysg 1996 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau yn eu hardal i'w galluogi i ganfod (i'r graddau mae hynny'n bosibl) pwy yw'r plant oed ysgol gorfodol yn eu hardal sydd serch hynny:

- heb fod yn ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol, a
- heb dderbyn addysg addas mewn modd arall.

Mae awdurdodau lleol wedi dadlau ers yn hir eu bod yn cael anhawster cyflawni'r gofynion hyn gan nad oes dyletswydd i rieni yn eu hardal roi gwybod iddyn nhw eu bod yn addysgu gartref, ac nad oes ganddyn nhw'r pwerau angenrheidiol i asesu'r addysg mae plant sy'n cael eu haddysgu gartref yn ei derbyn.<sup>xviii</sup>

Wrth geisio nodi pwy yw'r plant yn eu hardal nad ydynt yn derbyn addysg addas, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i ganllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn 2017 er mwyn helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg.<sup>xix</sup> Mae'r rhain yn datgan, os oes *'rheswm da i gredu nad yw rhieni'n darparu addysg addas, bod modd i awdurdodau lleol gyflwyno Gorchymyn Mynychu'r Ysgol i'r rhieni. Bydd hynny'n caniatáu cyfnod o 15 diwrnod o leiaf i'r rhiant ddarparu pa wybodaeth bynnag sy'n ofynnol i'r awdurdod fedru bodloni eu hunain ynghylch addasrwydd yr addysg.'*

Mae'r Adolygiad hwn yn cynnwys cronoleg fanwl iawn yn Atodiad B ynghylch addysgu gartref, a fersiwn grynodol ar dudalennau 21-22 o gorff yr adroddiad. Fodd bynnag, er mwyn darparu'r cyd-destun perthnasol, mae pryderon ynghylch diffyg rheoleiddio addysgu gartref yng Nghymru (a'r Deyrnas Unedig gyfan) wedi cael eu codi dros nifer o flynyddoedd. Yng Nghymru, bu farw bachgen o'r enw Dylan Seabridge yn 8 oed yn 2011. Roedd Dylan wedi cael ei addysgu gartref ar hyd ei oes, ac nid oedd erioed wedi mynd i'r ysgol. Nid oedd wedi cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd na gwasanaethau eraill cyffredinol ers pan oedd yn faban.

Daeth yr Adolygiad Ymarfer Plant (CPR) a gynhaliwyd mewn perthynas â'i farwolaeth i'r casgliad bod asiantaethau wedi gweithredu'n unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol yn ei achos. Roedd yn hysbys i'r awdurdod lleol, ond ni allent gael mynediad i'r cartref i weld na siarad â Dylan am ei addysg a'i hawliau, gan fod y rhieni'n atal mynediad.



I gloi, roedd yr adroddiad yn argymhell bod y bwrdd diogelu yn “ysgrifennu at Lywodraeth Cymru, yn gofyn am newidiadau i’r ddeddfwriaeth a’r canllawiau statudol ar blant y dewisir eu haddysgu gartref, er mwyn ymgorffori gofyniad bod rhieni a gwarcheidwaid yn cofrestru pob plentyn o’r fath yn flynyddol gyda’r Awdurdod Lleol. Ar ben hynny, dylai gweld a siarad â phob plentyn o’r fath fod yn orfodol, a chofnodi eu barn a’u dymuniadau bob blwyddyn. Dylai’r ddeddfwriaeth nodi bod yr wybodaeth a gedwir i gael ei rhannu hefyd gyda Meddyg y Teulu a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill.”

Daeth adroddiad yn 2017 a gomisiynwyd gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol i gasgliadau tebyg.

Yn dilyn blynyddoedd o waith dylanwadu, fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn ac yn y gronoleg fanwl yn Atodiad B, yn 2018 cyhoeddodd Comisiynydd Plant Cymru (CPC) dri phrawf ar gyfer cyflawni newid polisi addas yng nghyswllt addysgu gartref:

- Yn gyntaf, bod modd rhoi cyfrif am holl blant Cymru, heb i neb lithro o dan radar gwasanaethau cyffredinol, a’r gymdeithas yn gyffredinol.
- Yn ail, bod pob plentyn yn derbyn addysg addas a’i hawliau dynol eraill, gan gynnwys iechyd, gofal a diogelwch.
- Nid oes modd cyflawni hyn heb y trydydd nod, sef y dylai pob plentyn gael cyfle i gael eu gweld, a bod rhywun yn gwrando ar eu barn a’u profiadau.

Bydd yr adroddiad hwn yn dadansoddi cynnydd yn fanwl yn erbyn yr argymhellion a’r profion hyn.

## B. Ysgolion Annibynnol

### Cofrestru ac arolygu ysgolion annibynnol

Mae Adran 463 o Ddeddf Addysg 1996 yn diffinio ysgol annibynnol fel unrhyw ysgol nad yw’n cael ei chynnal gan awdurdod lleol ac sy’n darparu addysg amser llawn i’r canlynol:

- i. pump neu fwy o ddisgyblion oed ysgol gorfodol; neu
- ii. un neu fwy o ddisgyblion oed ysgol gorfodol sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig, neu sydd mewn gofal cyhoeddus (yn unol ag ystyr adran 22 o Ddeddf Plant 1989).

Rhaid i bob ysgol annibynnol yng Nghymru gael eu cofrestru gyda Llywodraeth Cymru, a rhaid gwneud cais am gofrestru cyn i ysgol dderbyn unrhyw ddisgyblion. Mae’n anghyfreithlon rhedeg ysgol sydd heb ei chofrestru. Mae’r gofynion ar gyfer cofrestru ysgol wedi’u nodi yn Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Darparu Gwybodaeth)(Cymru) 2003.<sup>xx</sup>

Mae Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003<sup>xxi</sup> yn cyflwyno’r safonau mae’n rhaid i bob ysgol eu bodloni i gael eu cofrestru, ac i barhau wedi’u cofrestru. Mae’r safonau’n ymwneud ag ansawdd yr addysg, datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion, a lles, iechyd a diogelwch disgyblion.



Mae Estyn, arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru, yn arolygu ysgolion annibynnol er mwyn barnu a ydynt yn cydymffurfio â'r safonau hyn cyn cymeradwyo cais am gofrestru; wedi hynny rhwng 3 a 6 mis ar ôl cymeradwyo cofrestru; ac ar ôl hynny, yn ystod arolygiadau rheolaidd o fewn chwe blynedd. Bydd yr arolygu'n digwydd yn amlach pan fydd ysgol yn destun pryder. Ar ben hynny, mae Estyn yn ymweld ag ysgolion annibynnol sydd â disgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig yn flynyddol. Mae angen cyhoeddi adroddiadau arolygu fel y nodir yn Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Cyhoeddi Adroddiadau Arolygu)(Cymru) 2003.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gofrestru a gweithredu ysgolion annibynnol<sup>xxii</sup> yn datgan, '*Na fydd ysgolion yn cael eu cofrestru oni bai eu bod yn bodloni'r safonau. Os na fyddant yn bodloni'r safonau ar ôl cofrestru, bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn bod diffygion yn cael eu cywiro.*

*Gall Llywodraeth Cymru dynnu ysgol oddi ar y gofrestr os yw wedi'i hargyhoeddi bod un neu fwy o'r safonau heb eu bodloni, neu bod disgyblion mewn perygl. Mae'n anghyfreithlon gweithredu ysgol sydd heb ei chofrestru, felly rhaid cau unrhyw ysgol a dynnir oddi ar y gofrestr.'*

Gwnaed newidiadau i'r fframwaith rheoliadol ynghylch ysgolion annibynnol yn 2007, yn rhannol er mwyn egluro'r gofynion mewn perthynas â gwiriadau cofnodion troseddol, a hefyd er mwyn gofyn bod gwybodaeth ychwanegol yn cael ei darparu ynghylch aelodau o gorff corfforaethol sy'n berchen ar ysgol annibynnol. Gwnaed newidiadau pellach yn 2009 i adlewyrchu newidiadau sy'n codi o ganlyniad i'r darpariaethau gwahardd yn Neddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006.

Fel rhan o'r cais cofrestru, rhaid i ysgolion annibynnol argyhoeddi Llywodraeth Cymru ynghylch addasrwydd y perchennog, a rhaid i'r perchennog (y person neu'r personau sy'n gyfrifol am reoli'r ysgol o ddydd i ddydd) fod yn destun gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Rhaid i staff ysgolion annibynnol gael gwiriad DBS hefyd, ac mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn 2014 ar gyfer ysgolion annibynnol yn datgan, '*Gall unrhyw ysgol sy'n methu â sicrhau bod staff a/neu wirfoddolwyr wedi cael gwiriad DBS, neu sy'n penodi person yn groes i waharddiad neu gyfyngiad, fod wedi cyflawni achos difrifol o dorri'r safonau. Gellir tynnu'r ysgol oddi ar y gofrestr ysgolion annibynnol, a'i gorfodi i gau.*<sup>xxiii</sup>

Nid yw'n ofynnol bod perchnogion, staff na wirfoddolwyr yn yr ysgol wedi'u cofrestru gyda Chyngor Gweithlu Addysg Cymru.

## Ysgolion annibynnol sydd â llety preswyl

Os bydd cais am ddarparu llety preswyl newydd mewn ysgol newydd neu bresennol, bydd Arolygiaeth Gofal Cymru hefyd yn ymweld â'r ysgol er mwyn asesu'r ddarpariaeth yn erbyn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Preswyl<sup>xxiv</sup> cyn dod i benderfyniad am y cais. Wedi hynny, bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn archwilio llety preswyl a lles disgyblion mewn ysgolion preswyl o leiaf bob 3 blynedd, ond yn flynyddol mewn ysgolion sydd â disgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig neu ysgolion sydd wedi'u cofrestru fel Cartrefi Plant yn ogystal.



Gall Arolygiaeth Gofal Cymru ymweld ag unrhyw ysgol sy'n darparu llety preswyl ar unrhyw adeg, gyda neu heb rybudd. Mae'r safonau'n cwmpasu pum maes eang, fel a ganlyn: polisiau a gweithdrefnau lles; trefniadaeth a rheolaeth; cefnogaeth lles i fyfyrwyr preswyl; staffio; ac adeiladau.

Lle mae cais am ddarparu gofal preswyl newydd, ar ffurf Cartref Plant gyda darpariaeth addysgol, bydd angen cyflwyno cais ar wahân i gofrestru elfen ofal y ddarpariaeth yn uniongyrchol gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, a bydd Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion arbennig preswyl yn berthnasol.<sup>xxv</sup>

## Diogelu mewn lleoliadau annibynnol

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru 2020, Cadw Dysgwyr yn Ddiogel<sup>xxvi</sup> yn berthnasol i ddiogelu plant mewn lleoliadau addysg annibynnol a rhai a gynhelir, ac mae'r canllawiau hyn yn amlygu'r rhwymedigaethau cyfreithiol sy'n berthnasol i bob lleoliad.

Mae adran benodol o'r canllawiau hyn ar gyfer lleoliadau annibynnol, ac mae'r adran honno'n nodi bod *'Gan berchnogion ysgolion annibynnol gyfrifoldebau tebyg i rai cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, ond ni allant ddibynnu ar awdurdodau lleol i ddarparu cyngor a chefnogaeth yn yr un modd ag ar gyfer ysgolion a gynhelir.'*

## Tynnu ysgol oddi ar y Gofrestr Ysgolion Annibynnol

Os bydd Llywodraeth Cymru yn barnu bod ysgol yn methu bodloni un neu fwy o'r safonau, neu os bydd perygl niwed difrifol i les y disgyblion, gall orchymyn bod yr ysgol yn cael ei thynnu oddi ar y gofrestr ysgolion annibynnol. Cyflwynir y broses hon mewn canllawiau gweithredol<sup>xxvii</sup> sy'n pennu y bydd Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r ysgol yn gyntaf; ac yn gofyn bod y perchennog yn cyflwyno cynllun gweithredu oddi mewn i gyfnod penodedig o amser. Wedyn bydd Llywodraeth Cymru naill ai'n gwrthod y cynllun; neu'n cymeradwyo'r cynllun, gyda neu heb addasiadau.

Ar gais Llywodraeth Cymru, bydd Estyn yn ymweld â'r ysgol i wirio cynnydd cynllun gweithredu a gymeradwywyd. Os gwrthodir y cynllun, gall Llywodraeth Cymru benderfynu bod yr ysgol i gael ei thynnu oddi ar y Gofrestr Ysgolion Annibynnol; neu lunio Gorchymyn yn gofyn bod y perchennog yn rhoi'r gorau i ddefnyddio unrhyw ran benodedig o safle'r ysgol, yn cau unrhyw ran o weithrediad yr ysgol, neu'n rhoi'r gorau i dderbyn unrhyw ddisgyblion newydd, fel y pennwyd gan y Gorchymyn.





Os cymeradwywyd cynllun gweithredu, ond mae'r camau a nodwyd heb eu cyflawni erbyn y dyddiad gofynnol, gall Llywodraeth Cymru wneud y canlynol: gofyn am ddyddiad hwyrach; llunio Gorchymyn fel uchod; neu benderfynu bod yr ysgol i gael ei thynnu oddi ar y Gofrestr Ysgolion Annibynnol. Mae gan y perchennog hawl i apelio am 28 diwrnod.

O dan Adran 169 o Ddeddf Addysg 2002 gall Llywodraeth Cymru dynnu ysgol oddi ar y gofrestr hefyd os bydd person sy'n gweithio yno, neu'r perchennog, yn anaddas i weithio gyda phlant neu i fod yn rhan o reoli ysgol. Mae'r rheoliadau'n rhestru'r personau y bernir eu bod yn anaddas i weithio mewn ysgolion annibynnol<sup>xxviii</sup> ac mae'r rhain yn cynnwys personau sy'n anaddas ar sail sy'n ymwneud â chamymddygiad y person ac anghymhwysedd proffesiynol.

Mae'r Adolygiad hwn yn cynnwys cronoleg fanwl iawn yn Atodiad C yng nghyswllt ysgolion annibynnol, a fersiwn grynodol ar dudalen 27 yng nghorff yr adroddiad. Fodd bynnag, er mwyn darparu cyd-destun perthnasol, mae pryderon ynghylch bylchau yn y rheoliadau wedi cael eu codi gyda'r Llywodraeth gan Gyngor y Gweithlu Addysg (EWC). Nid yw'n ofynnol bod athrawon mewn ysgolion annibynnol yn cofrestru gyda'r EWC, felly ni all y corff hwnnw gynnal ymchwiliadau disgyblu na chymryd camau gweithredu mewn perthynas â'r cyfryw athrawon. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno achos penodol a gododd yng Nghymru yn 2019, sy'n dangos pam mae hyn yn bryder, ond mewn gwirionedd roedd y bwch hwn yn y ddeddfwriaeth wedi bod ar radar y Llywodraeth ers sawl blwyddyn cyn yr achos hwnnw.

Ar ben hynny, nid yw safonau rheoliadau 2003 wedi cael eu newid na'u diweddarau, er bod newidiadau wedi'u gwneud yn Lloegr i'r rheoliadau cyfatebol ers hynny. Yn y gorffennol mae Estyn wedi amlygu rhai meysydd posibl lle gellid diweddarau'r safonau, gan gynnwys diwygio safon 4 i ofyn bod gwiriadau DBS perchnogion a staff yn cael eu hadnewyddu'n rheolaidd, gan gynnwys pan fydd unrhyw newid pwysig i'r arweinyddiaeth, a gwella'r safonau mewn perthynas ag arweiniaeth a rheolaeth.

Mae hyn ochr yn ochr â'r pryder ynghylch y ffaith bod angen cofrestru athrawon ysgolion annibynnol gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, yn unol â'r cyfeiriadau ar hyd yr adroddiad hwn a'r Atodiadau.

## C. Adolygiadau ymarfer plant

Mae'r broses Adolygiadau Ymarfer Plant (CPR) yn deillio o adroddiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2009: Gwella Arfer i Amddiffyn Plant yng Nghymru: Archwiliad o Rôl Adolygiadau Achosion Difrifol.

Disodlodd Adolygiadau Ymarfer Plant yr Adolygiadau Achosion Difrifol, a fu ar waith yng Nghymru a Lloegr. Bwriad y symudiad at CPRs yng Nghymru oedd newid i gyfeiriad dysgu o faterion arfer blaenorol yn hytrach na rhoi bai ar rywrai.

Byrddau diogelu rhanbarthol sy'n gyfrifol am gynnal Adolygiadau Ymarfer Plant (CPR) yng Nghymru. Mae chwe bwrdd diogelu rhanbarthol yng Nghymru<sup>xxix</sup>, ac maent yn cydlynw, ac yn sicrhau effeithiolrwydd, gwaith i ddiogelu a hybu lles a llesiant plant yn eu hardal. Nhw sy'n gyfrifol am bolisi, gweithdrefnau, canllawiau a hyfforddiant amddiffyn plant yn lleol. Mae pob bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr uwch o gyfrif cyhoeddus lleol:



**Comisiynydd  
Plant Cymru**  
**Children's  
Commissioner  
for Wales**



- yr awdurdod lleol
- prif swyddog yr heddlu
- y bwrdd iechyd lleol
- ymddiriedolaeth y GIG, a
- darparwr gwasanaethau prawf sy'n syrthio oddi mewn i ardal y bwrdd diogelu.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru<sup>xxx</sup> yn nodi pryd dylid cynnal CPR, ac mae dau fath o adolygiad: Cryno ac Estynedig. Rhaid cynnal adolygiadau pan fydd amheuan neu wybodaeth ynghylch cam-drin neu esgeuluso plentyn, ac mae'r plentyn wedi marw neu wedi dioddef anaf a allai fygwth bywyd, neu wedi wynebu amharu difrifol a pharhaol ar iechyd a datblygiad. Cynhelir adolygiadau cryno pan nad oedd plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant nac yn derbyn gofal chwe mis cyn dyddiad y digwyddiad. Cynhelir adolygiadau estynedig os oedd y plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant a/neu os oedd yn blentyn yn derbyn gofal yn ystod y chwe mis cyn dyddiad y digwyddiad. Mae'r canllawiau hefyd yn darparu ar gyfer cynnal Fforwm Proffesiynol Amlasiantaeth, os na fodlonir y meini prawf ar gyfer cynnal CPR llawn.

Caiff adroddiad drafft dienw a chynllun gweithredu bras eu cynhyrchu a'u cyflwyno i'r Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol (y Bwrdd). Bydd aelodau'r Bwrdd yn ystyried casgliadau'r adolygiad, ac yn nodi'r goblygiadau strategol ar gyfer gwella ymarfer a systemau sydd i'w cynnwys yn y cynllun gweithredu.

Caiff yr adroddiad terfynol ei gymeradwyo gan y Bwrdd, ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, ac yna'i gyhoeddi gan y Bwrdd. Bydd y cynllun gweithredu'n cael ei lunio'n derfynol o fewn pedair wythnos i'r adroddiad terfynol, ei gymeradwyo gan y Bwrdd, a'i anfon ymlaen at Lywodraeth Cymru **er gwybodaeth** (pwyslais wedi'i ychwanegu). Bydd y broses o roi'r cynllun gweithredu ar waith yn cael ei hadolygu'n rheolaidd, ac adroddir ar gynnydd i'r Bwrdd.

Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn cyflwyno'r adroddiad i Dîm Diogelu Llywodraeth Cymru, a fydd wedyn yn tynnu rhannau eraill o Lywodraeth Cymru a'r arolygiaethau iechyd/addysg/gofal i mewn fel sy'n briodol, at ddibenion gwybodaeth.

Bydd yr adroddiad CPR terfynol, ynghyd â'r llinell amser grynodol, yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Bwrdd am isafswm o 12 wythnos. Bydd cyfeirnod ar y wefan o hynny ymlaen yn dangos y gallai'r adroddiad fod ar gael ar gais.

Yn 2015 comisiynwyd Cordis Bright i gynnal adolygiad o weithrediad Adolygiadau Ymarfer Plant<sup>xxxi</sup>. Canfuwyd bod cefnogaeth gyffredinol i'r broses CPR newydd, a dangosodd y rhanddeiliaid y siaradwyd â nhw lefel uchel o ymrwymiad i sicrhau bod y broses yn gweithio. Er bod cydnabyddiaeth eang ymhlith rhanddeiliaid bod y broses newydd yn ychwanegu cryn dipyn yn ychwanegol at lwyth gwaith gweithwyr proffesiynol, roedd cydnabyddiaeth ddilys bod angen gwneud y broses yn iawn, ac roedden nhw'n derbyn hynny, er mwyn cefnogi ymarferwyr rheng flaen a rheolwyr ac ymgysylltu â theuluoedd mewn modd mwy cadarnhaol. Roedd cydnabyddiaeth bod ansawdd rhai rhannau o'r broses yn amrywio, a bod oedi, ar adegau, wedi cael effaith ar safon, ond roedd teimlad y byddai'r safon yn gwella wrth i fwy o CPRs gael eu cynnal, ac yn sgîl ymwybyddiaeth gynyddol o'r broses newydd. Yna gallai hynny gael effaith gadarnhaol ar lefel ehangach ymarfer dysgu ledled Cymru. Yn olaf, roedd rhanddeiliaid yn awyddus i fod yn rhan o ddatblygu proses ar gyfer lledaenu'r canfyddiadau ar lefel genedlaethol.



Cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r holl hysbysiadau CPR a dderbyniwyd ganddynt yn 2018<sup>xxxii</sup>, fel rhan o ystyried sut dylid symud ymlaen gyda materion diogelu ac addysg. Lle mae fforwm proffesiynol amlasiantaeth (MAPF) yn digwydd yn lle CPR cryno neu estynedig, bydd Llywodraeth Cymru yn cael eu hysbysu, ond nid yw'n ofynnol bod yr adroddiadau hynny'n cael eu rhannu na'u cyhoeddi.

Nododd adolygiad mewnol Llywodraeth Cymru nifer o CPRs lle roedd y plentyn yn cael ei addysgu gartref trwy ddewis, ac un lle roedd y plentyn yn derbyn gwarsi gartref, ond heb gyflawni camau i sicrhau ei haddysg na'i diogelwch. Nododd nifer o'r CPRs fod rhieni'n dangos eu bod yn cydymffurfio â'r canllawiau cyfredol trwy ddarparu tystiolaeth ynghylch addysg eu plentyn ac ymgysylltu rhywfaint â'r awdurdod lleol.

O ganlyniad i adolygu'r hysbysiadau hyn, penderfynodd Llywodraeth Cymru gynhyrchu canllawiau rhannu gwybodaeth (cwblhawyd hynny yn 2019), er mwyn cynnwys rhai pwyntiau sbarduno yn y gweithdrefnau amlasiantaeth ar gyfer mynd ar ôl pryderon; ac edrych ar y cyfleoedd i sicrhau diogelwch plant trwy gyflwyno rheolaidd â gwasanaethau cyffredinol fel iechyd.

Ni fu modd symud ymlaen yn ddigonol gyda'r canllawiau ynghylch cysylltiadau â gwasanaethau cyffredinol oherwydd nad yw'r canllawiau statudol wedi cael eu symud ymlaen.

Diweddarwyd Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru ar CPRs yn 2019<sup>xxxiii</sup>. Mae'r Canllawiau'n cyfeirio at CCUHP, ond dim ond yn y cyd-destun ei fod wedi cael ei gadarnhau gan y Deyrnas Unedig yn 1991. Nid yw'n cyfeirio at ddyletswyddau Llywodraeth Cymru o dan Fesur 2011. Diweddarwyd y canllawiau i adlewyrchu cynhyrchu Gweithdrefnau Diogelu diwygiedig Cymru Gyfan (Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan gynt), ond ni wnaed newidiadau sylweddol.

Yn 2019 fodd bynnag, comisiynodd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB) Brifysgol Caerdydd i gynnal Adolygiad Thematig o CPRs; cyhoeddwyd yr adroddiad ddiwedd Ionawr 2020<sup>xxxiv</sup>.

Gwnaeth yr Adolygiad hwn nifer o argymhellion, gan gynnwys yr angen i adroddiadau CPR fod ar gael am gyfnod hwy na 12 wythnos, ac i'r dysgu gael ei rannu fel mater o drefn ar draws Cymru, gan ddefnyddio dulliau creadigol o ddsbarthu a rhannu gwybodaeth, ond nid ydynt wedi cael eu gweithredu.

Sefydlwyd yr NISB o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn benodol, mae gan y Bwrdd Cenedlaethol dair prif ddyletswydd, sef:

1. Darparu cefnogaeth a chynghor i Fyrddau Diogelu, gyda golwg ar sicrhau eu bod yn effeithiol.
2. Adrodd ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau i ddiogelu plant ac oedolion yng Nghymru.
3. Cyflwyno argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch sut gellid gwella'r trefniadau hynny (A.132 (2)).

Mae'r rheoliadau a luniwyd o dan Ddeddf 2014 yn nodi sut mae'n rhaid i'r Bwrdd Cenedlaethol ymarfer ei swyddogaethau.



# METHODOLEG

Er mwyn cwblhau'r Adolygiad hwn yn gyflym, ac er mwyn i'r Llywodraeth bresennol ymateb i unrhyw wersi sy'n codi ohono, penderfynwyd gweithio o'r ddogfennaeth sydd eisoes yn bodoli yn unig. Yng nghyd-destun pandemig Covid-19 a'r ffaith bod diwedd pum mlynedd Tymor y Senedd yn prysur nesáu, nid oedd yn angenrheidiol nac yn ddymunol gofyn bod papurau tystiolaeth ychwanegol na datganiadau tystion yn cael eu cynhyrchu er mwyn cynnal yr Adolygiad hwn.

Ar ben hynny, roedd gweithio o'r papurau oedd eisoes yn bodoli yn caniatáu i ni edrych ar sut roedd gwybodaeth a materion yn cael eu cyflwyno *ar y pryd* trwy ddychwelyd at y dogfennau gwreiddiol. Roedd hynny'n golygu bod modd i ni edrych ar y geiriad a ddefnyddiwyd ar y pryd, yn hytrach na'r geiriad a fyddai'n cael ei ddefnyddio i gynrychioli neu esbonio camau gweithredu'r Llywodraeth wrth edrych yn ôl o 2020, yng nghyd-destun cynnal Adolygiad statudol.

Ar 7 Medi 2020 fe wnaethom ni ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn rhoi gwybod am ein bwriad i gynnal yr Adolygiad hwn, ac yn rhannu'r Cylch Gorchwyl drafft gyda nhw. Ar 25 Medi, wedi i ni gyhoeddi'r Adolygiad yn ffurfiol yn ein hadroddiad *Coronafeirws a Fi*, a gyhoeddwyd ar 22 Medi, fe wnaethom ni ysgrifennu eto at y cyswllt penodol yn Llywodraeth Cymru i ofyn am unrhyw rai neu'r cyfan o'r canlynol o 1 Ionawr 2015 hyd at heddiw:

- Unrhyw bapurau a chofnodion Cabinet mewn perthynas â Dewis Addysgu Gartref neu Ysgolion Annibynnol;
- Unrhyw gyfarwyddiadau a chyngor a dderbyniwyd gan weinidogion mewn perthynas â Dewis Addysgu Gartref neu Ysgolion Annibynnol;
- Unrhyw friffiadau ar Ddewis Addysgu Gartref neu Ysgolion Annibynnol ar gyfer cyfarfodydd gyda'r Comisiynydd neu unrhyw aelod o'i thîm;
- Pob ymateb i ymgynghoriad 2015 ar ganllawiau anstatudol Drafft i awdurdodau lleol ar Ddewis Addysgu Gartref (wedi'u gwneud yn ddiennw fel sy'n berthnasol);
- Pob ymateb i ymgynghoriad 2019 ar ganllawiau statudol Drafft i awdurdodau lleol ar Ddewis Addysgu Gartref (wedi'u gwneud yn ddiennw fel sy'n berthnasol);
- Pob ymateb i ymgynghoriad 2020 ar reoliadau Drafft ar gyfer cronfa ddata ynghylch Dewis Addysgu Gartref (wedi'u gwneud yn ddiennw fel sy'n berthnasol);
- Papurau gan asiantaethau allanol, lle rhoddwyd cyngor i Lywodraeth Cymru ar Ddewis Addysgu Gartref neu Ysgolion Annibynnol; ac
- Unrhyw bapurau eraill roedd y Comisiynydd yn barnu eu bod yn berthnasol i'r Adolygiad hwn.

Y terfyn amser ar gyfer derbyn y papurau hyn oedd dydd Gwener 30 Hydref 2020.



Ni lwyddodd Llywodraeth Cymru i gadw at y terfyn amser hwn. Er i drafodaethau anffurfiol gael eu cynnal ynghylch trefniadau ymarferol i drosglwyddo neu weld dogfennau, cymerodd 55 diwrnod gwaith i dderbyn ymateb ysgrifenedig swyddogol i'n cais gan Lywodraeth Cymru, ar 11 Rhagfyr 2020. Roedd yr ymateb hwnnw yn nodi eu bod yn "amcangyfrif y byddant yn gallu darparu rhagor o wybodaeth ynghylch pa ddogfennaeth fydd yn cael ei rhyddhau yn ystod yr wythnos yn cychwyn ar 21 Rhagfyr", felly, yn syml, y byddai diweddariad yn cael ei ddarparu ymhen 10 niwrnod yn hytrach na darparu'r dogfennau y gofynnwyd amdanynt, o reidrwydd. Roedd yr ymateb hefyd yn nodi y byddai ein cais yn awr yn cael ei drin fel cais Rhyddid Gwybodaeth (FOI) er ei fod wedi'i wneud yn unol â'n pwerau statudol.

Ar ôl ystyried yr ymateb, yr amseriadau dan sylw a phwysau'r dystiolaeth oedd eisoes ar gael i ni, gwrthodwyd y cais hwn gan ein swyddfa.

Serch hynny, ddiwedd mis Tachwedd 2020, fe wnaethom ni dderbyn copïau wedi'u golygu/gwneud yn ddiennw o'r ymatebion ymgynghori o ymgynghoriad y Llywodraeth yn 2019 ar ganllawiau statudol ar gyfer addysgu gartref, ac ymgynghoriad 2015 ar y canllawiau anstatudol diwygiedig.

Manylir yma ar yr anawsterau wrth gaffael peth data perthnasol gan Lywodraeth Cymru oherwydd bod hynny'n dangos y bylchau yn y ddeddfwriaeth yng nghyswllt pwerau'r Comisiynydd Plant i gaffael y dystiolaeth sy'n ofynnol iddi fedru cynnal y math o adolygiad o'r Llywodraeth (neu gyrff cyhoeddus eraill) oedd mewn golwg pan sefydlwyd y rôl yn wreiddiol. Edrychir ymhellach ar oblygiadau hyn yn adran argymhellion yr adroddiad hwn.

Roeddem hefyd wedi gofyn am bapurau gan sefydliadau eraill er mwyn triogli'r wybodaeth oedd yn bwydo i'r Adolygiad hwn. Gofynnwyd am bapurau gan y sefydliadau canlynol:

- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW)
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru
- Cyngor Ysgolion Annibynnol Cymru (WISC)
- Cyngor y Gweithlu Addysg (EWC)
- Estyn
- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB)
- Pob bwrdd diogelu plant rhanbarthol yng Nghymru.

Daeth papurau i law gan bob un o'r sefydliadau uchod ac eithrio AGC, a oedd yn methu darparu ymateb ar wahân i'r papurau y gofynnwyd amdanynt eisoes, oherwydd eu bod yn gangen o'r Llywodraeth.

Mae Cylch Gorchwyl (TOR) yr Adolygiad i'w weld yn ATODIAD A.

Nid yw'r pŵer cyfreithiol perthnasol y cynhaliwyd yr Adolygiad hwn oddi tano yn gofyn bod Cylch Gorchwyl yn cael ei gynhyrchu na'i gytuno, ond fe wnaethom ni hynny, a'i ddarparu i'r Llywodraeth ar gyfer sylwadau cyn cychwyn yr Adolygiad, fel mater o arfer da.

Ni dderbyniwyd awgrymiadau ar gyfer newidiadau mewn perthynas â'r Cylch Gorchwyl, ond yn eu hymateb ar 24 Medi 2020 (wedi i'r Adolygiad gychwyn yn ffurfiol), ceisiodd y Llywodraeth sicrhau eglurhad yng nghyswllt un agwedd oedd yn ymwneud ag Ysgolion Annibynnol, sef "bod rhaid i berchnogion ysgolion annibynnol, o dan adran 157 o Ddeddf Addysg 2002, gydymffurfio â'n canllawiau statudol Cadw



Dysgwyr yn Ddiogel: sef rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002 er mwyn bodloni'r safonau a geir yn y rheoliadau ac ymarfer eu swyddogaethau mewn modd sy'n cymryd i ystyriaeth yr angen am ddiogelu a hybu lles plant." Edrychir ymhellach ar y sefyllfa hon yn yr Adolygiad er mwyn gweld i ba raddau mae pob darpariaeth statudol yn berthnasol i ysgolion annibynnol.

Prif ffynonellau data'r Adolygiad hwn yw nodiadau cyfarfodydd (nodiadau cyfamserol mewnol Comisiynydd Plant Cymru (CPC) a chofnodion swyddogol cyfarfodydd), a gohebiaeth ffurfiol gyda Llywodraeth Cymru, i adlewyrchu lle mae materion wedi cael eu hesgaladu a'u hymateb hwythau i hynny, yn hytrach na chyflwyno pob achos unigol o ryngweithio ar bob pwnc.

Yr hyn yr ydym ni wedi'i wneud, fodd bynnag, er mwyn sicrhau ein bod yn cwmpasu'r holl ddogfennau pwysig a'r rhai a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r dogfennau y gofynnwyd amdanynt, yw chwilio trwy'r cofnodion canlynol am derminoleg allweddol sy'n ymwneud â'r Adolygiad:

- E-byst CPC;
- System SharePoint fewnol CPC;
- Gwefan Llywodraeth Cymru;
- Gwefan y Senedd a chofnodion trafodaethau.

Dylid nodi bod gan CPC bolisi cadw dogfennau sy'n berthnasol i bob aelod o staff; gallai hynny olygu nad yw rhai cofnodion hanesyddol ar gael bellach.



# CRNOLEGAU

---

Er mwyn olrhain cynnydd polisi ac ymrwymiadau deddfwriaethol a wnaed gan y Llywodraeth, ochr yn ochr â chamau gweithredu a galwadau sefydliadau allanol, gan gynnwys CPC, rydym wedi coladu dwy gronoleg ar wahân, ynghylch dewis addysgu gartref a rheoleiddio ysgolion annibynnol.

Er gwaethaf y cyfyngiadau a nodwyd yn adran fethodoleg yr adroddiad hwn, mae'r cronolegau hyn yn ddogfennau helaeth, a llunio a dadansoddi'r dogfennau hyn oedd prif swmp y camau gweithredu yn ein Hadolygiad. Rydym wedi cynnwys dadansoddiad o'r sefyllfa ar ddiwedd mis Rhagfyr 2020, er mwyn myfyrto ar y datganiadau a'r ymrwymiadau a wnaed ar hyd y ffordd, ac a roddwyd y rheiny ar waith neu beidio. Mae'r dogfennau cronoleg hyn yn gannoedd o dudalennau ynddynt eu hunain, felly fe'u hatodir i'r adroddiad hwn er hwylustod cyfeirio.

## [Atodiad B: Cronoleg dewis addysgu gartref](#)

## [Atodiad C: Cronoleg ysgolion annibynnol](#)

Nid wyf yn ymddiheuro am hyd a chwmpas y papurau hyn; gan mai dyma'r tro cyntaf i Adolygiad o'r fath gael ei gynnal, teimlid ei fod yn bwysig dangos sut mae CPC wedi mynd ati gyda'r gwaith hwn, ac i fod yn gwbl atebol i'r Llywodraeth, asiantaethau allanol, a phlant a'u teuluoedd o ran sut mae'r fîm wedi ystyried a chyrraedd ein casgliadau.



# YSTYRIED A DADANSODDI CAMAU GWEITHREDU'R LLYWODRAETH

---

Fel y nodwyd yn y cronolegau manwl yr ydym wedi'u hystyried, mae fy nhîm a minnau wedi ystyried nifer fawr o ddogfennau, sy'n rhai miloedd o dudalennau.

Wrth wneud hynny, rwyf wedi cael hyd i dystiolaeth gyfyngedig ynghylch sut mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati'n rhagweithiol i roi sylw i hawliau plant wrth ymateb i Adolygiad Ymarfer Plant Dylan Seabridge (Seabridge CPR).

Mae nodiadau cyfarfodydd, gohebiaeth a chwestiynau sesiwn lawn yn dod â ni'n ôl droeon at Seabridge CPR<sup>xxxv</sup>. Serch hynny, mae'n amlwg mai CPC, Aelodau'r Senedd a sefydliadau eraill oedd bron bob amser yn creu'r cysylltiadau yn ôl at Seabridge CPR yn ystod y trafodaethau; anaml y daeth hynny'n rhagweithiol o Lywodraeth Cymru. Ailgyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllawiau anstatudol ar ddewis addysgu gartref ym mis Ionawr 2017<sup>xxxvi</sup>, chwe mis yn unig wedi cyhoeddi CPR Seabridge, ond nid oedd y canllawiau hyn yn rhoi sylw i'r pryderon roedd y CPR wedi'u codi.





Wrth ymateb i argymhellion unrhyw adroddiad, mae'n angenrheidiol mynd ati'n ymwybodol i roi sylw i'r pwyntiau a godwyd yn llawn, neu ni ellir gwarantu bod y camau sy'n cael eu cymryd mewn gwirionedd yn ymateb i'r pryderon y mae'r manylion yn yr argymhellion hynny yn ceisio rhoi sylw iddynt.

Mae'n amlwg bod y Llywodraeth wedi cymryd llawer o gamau ers adroddiad 2016, megis ailgyflwyno canllawiau anstatudol ac ymgynghori ar ganllawiau statudol, ond serch hynny mae'n amlwg **na wnaed newidiadau sylweddol i unrhyw ganllawiau a fyddai'n adlewyrchu'r dysgu o Seabridge CPR.**

Argymhelliad 1 y CPR hwnnw oedd bod y bwrdd diogelu yn *"ysgrifennu at Lywodraeth Cymru, yn gofyn am wneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol ynghylch plant y dewisir eu haddysgu gartref, yn ymgorffori gofyniad bod rhieni a gwarcheidwaid yn cofrestru'r holl gyfryw blant yn flynyddol gyda'r Awdurdod Lleol. Ar ben hynny, bod yr holl blant hynny yn gorfod cael eu gweld a siarad â nhw, a bod eu barn a'u dymuniadau'n cael eu cofnodi'n flynyddol. Dylai'r ddeddfwriaeth nodi bod yr wybodaeth a gedwir i gael ei rhannu hefyd gyda Meddyg y Teulu a gweithwyr proffesiynol eraill perthnasol."*

Nid yw'r ddeddfwriaeth na'r canllawiau statudol wedi newid yn sylweddol, ac ar hyn o bryd nid yw'n ofynnol bod pob plentyn yn cael eu gweld a bod rhywun yn siarad â nhw yn benodol o aml, ac nid oes ychwaith ofyniad penodol i rannu gwybodaeth dros ben y rhesymau amddiffyn plant cyffredinol.

## Dewis Addysgu Gartref (DAG)

Isod ceir cronoleg grynodol, lefel uchel iawn, o'r prif bwyntiau ar daith y polisi addysgu gartref. Ceir cronoleg sy'n llawer llawnach yn Atodiad B; cynhwyswyd yr adran hon yma er hwylustod cyfeirio i'r darlennydd.

**Rhagfyr 2011** Marwolaeth Dylan Seabridge

**Mai 2015** Ymgynghoriad LIC ar ganllawiau anstatudol diwygiedig ar gyfer dewis addysgu gartref

**Gorff. 2016** Cyhoeddi Adolygiad Ymarfer Plant ar gyfer Dylan Seabridge. Argymhelliad un oedd bod y bwrdd diogelu yn *"ysgrifennu at Lywodraeth Cymru, yn gofyn am wneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol ynghylch plant y dewisir eu haddysgu gartref, yn ymgorffori gofyniad bod rhieni a gwarcheidwaid yn cofrestru'r holl gyfryw blant yn flynyddol gyda'r Awdurdod Lleol.*

*Ar ben hynny, bod yr holl blant hynny yn gorfod cael eu gweld a siarad â nhw, a bod eu barn a'u dymuniadau'n cael eu cofnodi'n flynyddol. Dylai'r ddeddfwriaeth nodi bod yr wybodaeth a gedwir i gael ei rhannu hefyd gyda Meddyg y Teulu a gweithwyr proffesiynol eraill perthnasol."*

**Hydref 2016** Argymhelliad yn adroddiad blynyddol CPC y dylai'r Llywodraeth gryfhau'r gofynion i rieni gofrestru fel rhai sy'n dewis addysgu eu plant gartref, a bod pob plentyn sy'n cael ei addysgu gartref trwy ddewis yn cael eu gweld gan weithiwr proffesiynol o leiaf unwaith y flwyddyn, er mwyn iddyn nhw fedru mynegi barn ar eu profiadau addysgol.





- Ionawr 2017** Cyhoeddi adroddiad ar broses ymgynghori 2015; y canlyniad oedd mai mân newidiadau yn unig fyddai'n cael eu gwneud i'r canllawiau, ac y byddai'n parhau'n anstatudol.
- Hydref 2017** Cyhoeddi adroddiad CASCADE (a gomisiynwyd gan NISB). Ymhlith yr argymhellion mae gwasanaeth cefnogi wedi'i wella'n sylweddol ar gyfer plant sy'n cael eu haddysgu gartref, ac asesiad cliriach o anghenion a llesiant plant sy'n cael eu haddysgu gartref, sy'n galw am:
- gofrestr o blant sy'n cael eu haddysgu gartref mewn modd tebyg i gofrestr yr ysgol
  - cynnal asesiad mwy cyfannol o lesiant ac addysg plant sy'n cael eu haddysgu gartref, a hynny'n rheolaidd, ac yn y cartref, sef y man lle maen nhw'n cael eu haddysg
  - ystyried disgwyliad cyfreithiol gan rieni, gan y byddai cynllun gwirfoddol "yn annhebygol o fod wedi amddiffyn Dylan Seabridge na phlant eraill y gwyddys eu bod wedi dioddef cam-drin neu esgeuluso difrifol".
- Hydref 2017** Argymhelliad yn adroddiad blynyddol CPC fod angen o hyd i Lywodraeth Cymru newid y canllawiau i roi grym statudol iddynt, a chynnwys cofrestr orfodol ar gyfer pob plentyn sy'n cael eu haddysgu gartref er mwyn sicrhau nad ydyn nhw'n syrthio "oddi ar radar" hyd yn oed y gwasanaethau cyffredinol. Mae hefyd yn bwysig bod diwygio'r canllawiau yn cynnwys pwerau clir i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn gweld plant ac yn siarad yn uniongyrchol â nhw am eu haddysg.
- Ionawr 2018** Yn dilyn lobio parhaus a thrafodaethau, datganiad gweinidogol gan Lywodraeth Cymru gydag ymrwymiad i ymgynghori ar y canllawiau statudol ynghylch addysgu gartref, a chronfa ddata
- Hydref 2018** CPC yn cyhoeddi tri phrawf ar gyfer polisi LIC yn adroddiad blynyddol 2017/18
- Yn gyntaf, bod modd rhoi cyfrif am holl blant Cymru, heb i neb lithro o dan radar gwasanaethau cyffredinol, a'r gymdeithas yn gyffredinol.
  - Yn ail, bod pob plentyn yn derbyn addysg addas a'u hawliau dynol eraill, gan gynnwys iechyd, gofal a diogelwch.
  - Nid oes modd cyflawni hyn heb y trydydd nod, sef bod pob plentyn cael cyfle i gael eu gweld, a chael gwrandawriad i'w barn a'u profiadau.
- Gorff. 2019** Lansio Ymgynghoriad LIC ar ganllawiau newydd statudol a llawlyfr i rieni
- Hydref 2019** Argymhelliad adroddiad blynyddol CPC — rhaid i Lywodraeth Cymru roi canllawiau statudol ar waith yn 2020 sy'n ymateb yn llawn i'n tri phrawf, er mwyn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu parchu lle bynnag maen nhw'n cael eu haddysgu. (\*nodyn: er bod yr ymgynghoriad yn fyw ar yr adeg hon, gwnaed yr argymhelliad hwn yn erbyn profiad blaenorol o oedi neu ddiffyg gweithredu yng nghyswllt canlyniadau ymgynghori)
- Ionawr 2020** Lanswyd Ymgynghoriad LIC ar gynigion rhannu gwybodaeth a chronfa ddata
- Mehafin 2020** Hysbyswyd CPC gan Weinidog Addysg LIC na fydd y cynigion uchod yn cael eu symud ymlaen



## Medi 2020    Lansiodd CPC adolygiad o gamau gweithredu LIC a'u penderfyniadau

Gwaetha'r modd, mae'r newidiadau deddfwriaethol ar gyfer Dewis Addysgu Gartref wedi methu symud ymlaen yn gyson. Mae'n amlwg o'r nodiadau cyfarfodydd a'r ohebiaeth y manylir arnynt yn Atodiad B fod oedi wedi digwydd i waith y Llywodraeth ar sawl achlysur, am amrywiol resymau gan gynnwys gwrthdaro rhwng blaenoriaethau gwaith, diffyg amser ac argaeledd swyddogion a chyfreithwyr, a'r angen am ymateb i symiau mawr o ohebiaeth neu ymatebion i ymgynoriadau<sup>xxxvii</sup>. Gofynnir cwestiynau ynghylch sut mae adlewyrchu'r disgwyl am gael gweld a siarad â phlant sy'n cael eu haddysgu gartref gan CPC, Aelodau o'r Senedd a chynrychiolwyr awdurdod lleol ar lawer o achlysuron, ond nid yw'r Llywodraeth yn dod i gasgliadau pendant ar bwytiau allweddol fel hwn. Arweiniodd hyn at ddiffyg eglurder o ran gwir fwiad polisi'r Llywodraeth, a heb ddychwelyd at y diben gwreiddiol, sef gwneud newidiadau (CPR Seabridge ac argymhellion cysylltiedig), nid oedd byth yn mynd i fod yn bosibl sicrhau bod eu hymateb i'r materion hyn yn ddigonol ac yn gadarn.

Yn dilyn cyfres o waith dylanwadu gan CPC oedd yn cynnwys cyfarfodydd, gohebiaeth ac argymhellion yn yr adroddiad blynyddol, cymerodd tan ddiwedd Ionawr 2018 i Lywodraeth Cymru ddangos beth oedd eu bwriad o ran polisi yng nghyswllt newid deddfwriaethol, gyda datganiad ysgrifenedig oedd yn nodi ymrwymiad i ddatblygu cynigion ar gyfer ffyrdd gwell o adnabod plant oedd ddim yn derbyn addysg addas. Ategwyd hyn mewn datganiad sesiwn lawn ar yr un dyddiad, lle mynegodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg<sup>xxxviii</sup> farn glir y byddai angen gweld plentyn i asesu addasrwydd addysg<sup>xxxix</sup>. Fodd bynnag, mae'n amlwg o sawl cyfarfod, trafodaeth ac adroddiadau ysgrifenedig a gohebiaeth wedi hynny, a geir yn Atodiad B, bod union fanylion bwriad y polisi heb eu dadansoddi'n briodol eto<sup>xl</sup>.

Parhaodd safbwynt y Llywodraeth ynghylch gweld plant yn amhendiant, ac ymddangosai fel petai'n amrywio, gyda gwybodaeth oedd yn gwrthdaro yn cael ei rhoi ynghylch i ba raddau gallai'r polisi oedd yn datblygu gyflawni'r nod hwn. Ymddangosai fod nodau polisi'r Llywodraeth y tu ôl i weithrediad y cynigion cronfa ddata hefyd heb eu datrys. Mae'r Gronoleg yn cynnwys manylion gwybodaeth anghyson ynghylch graddfa'r data yr oedd bwriad i'w gasglu fel rhan o'r cynigion.<sup>xli</sup>

Mater allweddol pellach yn nhymer cyfredol y Senedd fu'r ffaith fod Llywodraeth Cymru yn mynnu nad oedd digon o amser, ac y gallai fod yn anghymesur pasio deddfwriaeth sylfaenol yn y maes hwn<sup>xlii</sup>. Gwaetha'r modd, nid yw ceisio cyflawni newid yng nghyswllt y ddeddfwriaeth bresennol wedi arwain at lwybr cyflym ymlaen. Mae'r anawsterau wrth gyflwyno rhai gofynion, oherwydd cyfyngiadau'r ddeddfwriaeth bresennol, wedi bod yn ddadl barhaus gan Lywodraeth Cymru.

Ymddangosai nad oedd i ba raddau roedd y ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu i'r Llywodraeth wneud y newidiadau a amlygwyd gan Seabridge CPR ac adroddiad CASCADE wedi cael ei ddadansoddi'n llawn, neu os oedd hynny wedi digwydd, efallai ei fod eisoes yn amlwg i'r Llywodraeth y byddai eu camau gweithredu'n gyfyngedig, yn arbennig mewn perthynas â gweld y plentyn. Mae hynny wedi golygu, er pob addewid a wnaed gan y Llywodraeth, eu nodau polisi, a'r ffaith eu bod wedi derbyn argymhellion yn adroddiadau blynyddol olynol CPC, yn y pen draw bod cynnydd wedi cael ei lesteirio gan ddiffyg eglurder a phendantwydd yn hyn o beth.



Mae wedi dod i'r amlwg trwy'r Adolygiad hwn, er bod argymhellion CPC wedi cael eu derbyn, bod y diffyg eglurder ynghylch eu bwriad polisi yn y pen draw a'r safbwyntiau newidiol o ran beth byddai'r cynigion yn ceisio'i gyflawni wedi golygu bod derbyn y pwyntiau hyn o bosibl wedi digwydd cuddio agweddau nad oedd y Llywodraeth, yn y diwedd, yn eu derbyn yn llwyr. Mae hynny'n cynnwys a fyddai pob plentyn oedd yn cael eu haddysgu gartref yn cael eu hadnabod, eu gweld a bod rhywun yn siarad â nhw, i drafod eu haddysg a'u hawliau, a sut byddai hynny'n digwydd.

Bu cyfarfod o Gabinet Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2018 yn ystyried papur oedd yn amlygu'r camau y gallai'r Llywodraeth eu cymryd i atal plant rhag cael eu cuddio oddi wrth wasanaethau cyhoeddus, a pha mor bwysig oedd hi yng ngolwg llawer bod y Llywodraeth yn symud ymlaen gyda'r camau hyn. Fodd bynnag, roedd y datganiad Sesiwn Lawn a ddilynodd yn ddiweddarach y mis hwnnw yn adlewyrchu cynigion ar gyfer cronfa ddata "resymol gyflawn" a fyddai'n rhoi'r "siawns orau posib" o adnabod cynifer o blant â phosib, ond roedd y cynigion oedd yn dilyn yn amlygu'r bylchau oedd yn parhau o ran y dull gweithredu hwn, oedd yn seiliedig ar ddeddfwriaeth eilaidd.

Mae anghysondeb clir i'w weld rhwng derbyn yr argymhelliad yn fy adroddiad blynyddol bod y Llywodraeth yn sicrhau 'bod modd rhoi cyfrif am holl blant Cymru, heb i neb ohonynt lithro o dan radar gwasanaethau cyffredinol a'r gymdeithas yn gyffredinol' a'r nod yn ymgynghoriad y Llywodraeth yn 2020 bod y cynigion ar gyfer cronfa ddata yn sefydlu rhestr 'resymol gyflawn'<sup>xliii</sup> o'r holl blant a phobl ifanc, a gedwir ar lefel awdurdod lleol, sy'n benodol 'ddim yn gronfa ddata ganolog i Gymru gyfan'<sup>xliiv</sup> Byddai polisi oedd â'r bwriad o sicrhau bod plant yn weladwy yn ceisio creu rhestr gyflawn, ac felly byddai ganddo fecanweithiau hefyd i roi cyfrif am boblogaeth symudol a'r rhai oedd heb fod yn hysbys i unrhyw wasanaethau.

Fel y manylir yn Atodiad B, dywedodd y Llywodraeth wrth CPC mewn cyfarfod ym mis Mai 2018<sup>xliv</sup> na fyddai pob plentyn yn cael eu gweld o ganlyniad i'w cynigion, ac ailadroddwyd hynny mewn cyfarfod rhwng CPC a swyddogion y Llywodraeth ym mis Awst 2018<sup>xlvi</sup> pryd y nodwyd na allent ofyn am weld pob plentyn trwy ddefnyddio'r pwerau statudol presennol.

Oherwydd diffyg eglurder gan y Llywodraeth ynghylch eu bwriad polisi, ceisiodd fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2017-18, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018, ganfod safbwynt polisi clir, a hynny â'r tri phrawf canlynol:

- Yn gyntaf, bod modd rhoi cyfrif am holl blant Cymru, heb i neb lithro o dan radar gwasanaethau cyffredinol, a'r gymdeithas yn gyffredinol.
- Yn ail, bod pob plentyn yn derbyn addysg addas a'u hawliau dynol eraill, gan gynnwys iechyd, gofal a diogelwch.
- Nid oes modd cyflawni hyn heb y trydydd nod, sef bod pob plentyn yn cael cyfle i gael eu gweld, a bod rhywun yn gwrando ar eu barn a'u profiadau.<sup>xlvii</sup>

Cyflwynwyd y profion hyn gyntaf i'r Llywodraeth mewn llythyr ym mis Mehefin 2018<sup>xlviii</sup>, pan oeddem ni'n pryderu ynghylch y diffyg cynnydd yn y maes polisi hwn er gwaethaf datganiad y Gweinidog ym mis Ionawr 2018.



Mewn ymateb i hyn, ym mis Tachwedd 2018 derbyniodd y Llywodraeth dri phrawf CPC a gyflwynwyd yn adroddiad blynyddol 2017/18<sup>xlix</sup>, sy'n cynnwys gweld pob plentyn a siarad â nhw am eu haddysg, gan nodi ei fod yn "hanfodol" gwneud hyn yn iawn ar gyfer plant a'u teuluoedd. Roedd hyn yn rhoi'r argraff y byddai'r pwerau'n ddigonol i gyflawni pob un o'r profion yn llawn.

Ym mis Tachwedd 2018 disgrifiodd y Comisiynydd y broses o gysylltu â'r Llywodraeth i sicrhau bod y newidiadau polisi yn cael eu symud ymlaen yn unol â'r tri phrawf fel 'rhyfel athreuliaid' (*war of attrition*)<sup>l</sup> wrth geisio sicrhau hawliau sylfaenol pob plentyn, hyd yn oed, ond dilynwyd hynny gan gyfnod o ymgysylltu a gweithredu o'r newydd gan y Llywodraeth, oedd yn arwydd bod camau a gweithredu pellach yn digwydd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r profion a'r nodau polisi penodedig.

Ym mis Mai 2019, nododd swyddogion mewn e-bost at CPC eu bod o'r farn nad oes modd asesu addasrwydd addysg plentyn heb weld y plentyn<sup>li</sup>. Roedd hyn yn nodi eto ymrwymiad clir i fodloni'r tri phrawf yn llawn.

Fodd bynnag, nid oedd y cynigion a aeth ymlaen i ymgynghoriad yn ddiweddarach y flwyddyn honno yn sicrhau bod rhaid gweld pob plentyn, ac yn wir, wrth ymateb i gyngor cyfreithiol a roddwyd i herio ymgynghoriad 2019, gwrthododd y Llywodraeth yr honiad fod rhaid gweld pob plentyn<sup>lii</sup> ar y sail bod yr her yn ddiffygiol oherwydd ei bod yn datgan 'bod y canllawiau'n awgrymu bod cyfarfodydd yn statudol, ond dyw e ddim, mae'n datgan y dylen nhw fod.'

Mae i ba raddau mae bygythiad her gyfreithiol wedi effeithio ar y cynigion hyn yn aneglur, ond cyfeiriodd y Llywodraeth at y posibilrwydd o her trwy Adolygiad Barnwrol yn eu llythyr at CPC<sup>liii</sup> yn 2020, gan gadarnhau sut roedden nhw wedi dod i'r penderfyniad i beidio â symud ymlaen. Ar ben hynny, mae'r Llywodraeth wedi myfyrio ar adegau y byddai'r dull deddfwriaeth eilaidd yn cyfyngu ar y camau roedd modd iddyn nhw ofyn eu bod yn cael eu cymryd<sup>liiv</sup>, tra'u bod nhw ar adegau eraill wedi disgrifio'r dull gweithredu hwn fel un cymesur a rhesymol<sup>liv</sup>.

Ar hyd tymor cyfredol y Senedd, mae awdurdodau lleol (yn unigol ac ar y cyd) wedi cynghori'r Llywodraeth droeon na fyddai'r cynigion a roddwyd gerbron yn ddigonol i ymdrin â'r pryderon a godwyd gan Seabridge CPR yn ymarferol. Efallai ei fod yn anghyffredin gweld awdurdodau cyhoeddus yn gofyn yn agored am gael *mwyo* ddyletswyddau a phwerau, yn enwedig yng nghyd-destun hinsawdd anodd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus oherwydd Brexit a Covid-19, ac eto mae barn awdurdodau lleol wedi parhau'n gyson bod angen i'r cynigion fynd ymhellach er mwyn eu rhoi mewn sefyllfa briodol i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol i gynnal a chefnogi lles pob plentyn yn eu hardal.

Fel mae'r cronolegau uchod ac yn Atodiad B yn dangos, fy ngalwad i i'r Llywodraeth hon ar ddechrau eu tymor oedd newid y gyfraith yng nghyswllt addysgu gartref er mwyn amddiffyn plant yn well. Yn 2016 fe nodais mai un o'r mesurau oedd yn angenrheidiol i wneud hyn oedd bod y Llywodraeth yn creu gofyniad i rieni gofrestru fel rhai sy'n dewis addysgu eu plant gartref, er mwyn i'r awdurdodau fedru adnabod plant a addysgir gartref. Roedd yr argymhelliad hwn yn gwneud defnydd uniongyrchol o argymhelliad Seabridge CPR 2016, Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru CYSUR, a galwadau ADSS.

Wrth i Lywodraeth Cymru wneud cynnydd gyda datblygiad y polisi ynghylch addysgu gartref, safbwynt y Llywodraeth oedd y byddai'r nod polisi o adnabod pob plentyn yn cael ei gyflawni'n well trwy sicrhau deddfwriaeth eilaidd ar gyfer rhannu gwybodaeth a chynnal cronfeydd data.



Yn dilyn trafodaethau, fe wnes i dderbyn y dull gweithredu hwn gan y Llywodraeth ar sail eu haddewid y byddai hwn yn fodd mwy effeithiol o sicrhau bod plant yn weladwy i wasanaethau cyffredinol, ac ar y sail y byddai hynny'n cyflawni newidiadau cyflymach o fewn y tymor hwn, gan fod modd symud ymlaen yn llawer cyflymach gyda deddfwriaeth eilaidd na deddfwriaeth sylfaenol. Fodd bynnag, mae fy nghraffu ar ddatblygiad y gronfa ddata trwy 2019-20 wedi dod â mi i'r casgliad nad yw newid y ddeddfwriaeth eilaidd yn unig yn amddiffyniad digonol i atal plant rhag llithro o dan radar gwasanaethau cyffredinol.

Fe wnaeth rheoliadau arfaethedig y gronfa ddata greu pwerau rhannu gwybodaeth oedd yn golygu y byddai awdurdodau lleol mewn sefyllfa fwy rhagweithiol i fedru cyflawni eu dyletswyddau presennol i ganfod plant oedd yn colli addysg, ac roedd y cynigion hefyd yn ffurfioli casglu data sydd i ryw raddau eisoes yn digwydd. Ond roedd y cynigion yn gyfyngedig yn eu gallu i amddiffyn plant oherwydd nad oeddent yn rhoi cyfrif am boblogaeth symudol sy'n symud rhwng awdurdodau, a rhwng Cymru a Lloegr. Ar ben hynny, roedd rhannu gwybodaeth yn cael ei gynig ar sail flynyddol yn unig, na fyddai'n caniatáu ar gyfer gweithredu ar frys i ganfod a oedd plant yn colli addysg. Yn bwysig, roedd y cynigion hyn hefyd yn cynnwys risg y gallai teuluoedd beidio â chofrestru gyda gwasanaethau iechyd er mwyn osgoi rhannu gwybodaeth, ac amlygwyd y risg hon gan deuluoedd oedd yn addysgu gartref yn ystod digwyddiadau ymgynghori. Roedd angen gwneud gwaith pellach wedi'r ymgynghoriad i sicrhau nad oedd y cynigion hyn yn cael y canlyniad anfwriadol o wneud rhai plant yn llai gweladwy i wasanaethau cyffredinol.

Rwy'n cydnabod bod dyletswydd rhieni i gofrestru hefyd yn gyfyngedig, gan na fydd rhai teuluoedd yn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon, fel y nodwyd yn adroddiad Cascade 2017<sup>vi</sup>. Fy safbwynt nawr, felly, ar ôl dadansoddi'n helaeth wedyn i ddatgelu cyfyngiadau'r ddau ddull, yw mai'r dull gorau o ddiogelu gweledd plant sy'n cael eu haddysgu gartref yw gwneud y ddau beth. Hynny yw, mae'n rhaid bod deddfwriaeth sylfaenol sy'n gosod dyletswydd ar rieni i gofrestru, ac i ehangu hynny, rhaid bod rheoliadau newydd ar gyfer rhannu gwybodaeth a chronfa ddata, y mae modd eu datblygu ar ffurf deddfwriaeth eilaidd ar y sail a ynnigwyd eisoes.

Rhaid i'r Llywodraeth nesaf symud ymlaen gyda'r ddau llyn yma, a bydd hynny nid yn unig yn adeiladu ar waith a gwblhawyd eisoes, ond hefyd yn ei gryfhau, fel bod plant yn cael yr amddiffyniad gorau posib. Hefyd mae angen clir am ddeddfwriaeth sylfaenol i roi gofyniad ar waith bod rhaid gweld plant a rhoi cyfle iddyn nhw fynegi eu barn yn bersonol; mae ymgynghoriad 2019 a'r heriau cyfreithiol cysylltiedig ag ef yn dangos nad oes modd cyflawni hyn yn iawn trwy ddeddfwriaeth eilaidd.

O gymryd hyn i gyd i ystyriaeth, ni ellir dweud bod y Llywodraeth wedi ymateb, fel yr addawyd, mewn modd addas a chadarn i Adolygiad Ymarfer Plant Dylan Seabridge. Ym mis Gorffennaf 2016, yn y drafodaeth sesiwn lawn<sup>vii</sup> oedd yn ymateb i gyhoeddi'r CPR, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gymunedau a Phlant ar y pryd y byddai Llywodraeth Cymru yn "dysgu gwersi ac yn gwella gwasanaeth", gan nad oedd modd dweud ar yr adeg honno "nad oedd rhagor fel Dylan". Fodd bynnag, ni wnaed cynnydd pendant o ran yr argymhellion a fyddai'n cyflawni'r nod o sicrhau "nad oes rhagor fel Dylan".

Yn wir, fel y nodwyd uchod, os edrychwn ar y ffeithiau go iawn, ni chyflawnwyd unrhyw newidiadau pendant mewn ymateb i'r argymhellion.





## Ysgolion Annibynnol

Fel yn achos addysgu gartref (uchod), isod ceir cronoleg grynodol, lefel uchel iawn, o'r prif bwyntiau ar daith y polisi ysgolion annibynnol. Ceir cronoleg lawer llawnach yn Atodiad C; cynhwysir yr adran hon yma er hwylustod cyfeirio i'r darllynydd.

- Mai 2014** Pasiwyd Deddf Addysg (Cymru) heb ofyniad bod athrawon mewn ysgolion annibynnol wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (EWC). Roedd hynny er gwaethaf hanes hir o'r corff a'i rhagflaenodd, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, yn codi hyn gyda'r Llywodraeth dros flynyddoedd lawer.
- Bu'r Gweinidog Addysg ar y pryd yn sicrhau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, wrth i'r Ddeddf gael ei phasio, nad oedd posibilrwydd y byddai'r mater yn cael ei anghofio.
- Mawrth 2016** Dangosodd canlyniad adolygiad LIC a addawyd wrth basio Deddf 2014 fod mwyafrif mawr o'r ymatebwyr o blaid rheoleiddio pellach gan EWC, i gynnwys athrawon mewn ysgolion annibynnol. Byddai'n fater i'r Llywodraeth nesaf, fodd bynnag, gan fod etholiadau'r Cynulliad yn digwydd ym mis Mai 2016.
- Mai 2016** Wedi'r etholiad, nododd un o swyddogion LIC nad oedd cynlluniau i wneud unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth ynghylch ysgolion annibynnol.
- Medi 2019** Mae achos diogelu mewn ysgol annibynnol yn Sir Ddinbych yn dod at sylw CPC wrth i berson ifanc gysylltu â'r fîm Ymchwiliadau a Chyngor.
- Tach. 2019** CPC yn cynnull cyfarfod polisi ac achosion
- Ionawr 2020** LIC yn ymrwymo i weithredu er mwyn cyflwyno rheoliadau newydd ar gyfer ysgolion annibynnol
- Mehefin 2020** Y Gweinidog yn hysbysu CPC na fyddai cynigion o'r fath yn cael eu symud ymlaen
- Medi 2020** Lansiodd CPC adolygiad o gamau gweithredu a phenderfyniadau LIC
- Tach. 2020** Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA) — gwrandawriad pythefnos ar ddiogelu mewn ysgolion preswyl, gyda sawl diwrnod yn canolbwyntio ar achos diogelu 2019 o ysgol annibynnol yn Sir Ddinbych

Mewn modd tebyg i'r sefyllfa yn achos dewis addysgu gartref, mae'r newidiadau deddfwriaethol sy'n ofynnol er mwyn i Ysgolion Annibynnol ddod yn sefydliadau mwy diogel wedi syrthio mewn tymhorau Cynulliad/Senedd olynol. Nid wyf wedi canfod tystiolaeth bod y newidiadau a dderbyniwyd gan y Llywodraeth fel bylchau diogelu wedi cael eu symud ymlaen mewn materion hawliau plant pwysig chwaith.



Yn dilyn etholiad 2016, ymddengys “nad oedd cynlluniau” i Lywodraeth Cymru symud ymlaen gyda’r materion diogelu roedden nhw wedi’u derbyn yn y Tymor blaenorol<sup>lviii</sup>. A hynny er gwaethaf y sicrwydd a roddwyd gan y Gweinidog ar y pryd yn 2014 fod ‘dim modd’ i’r mater hwn gael ei ‘anghofio’<sup>lix</sup>

Hyd yn oed ar ôl cwblhau adolygiad y Llywodraeth o’r Bwriad i Gofrestru Athrawon ac Eraill sy’n cefnogi addysg yn y Sector Annibynnol gyda Chyngor y Gweithlu Addysg<sup>lx</sup> ym mis Mawrth 2016, nodwyd mewn gohebiaeth y byddai’n ‘newid sylweddol’ o ran cyfeiriad polisi petaen nhw’n gofyn bod athrawon mewn ysgolion annibynnol wedi’u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (EWC); rheoleiddiwr annibynnol y gweithlu addysg yng Nghymru. Digwyddodd hynny er bod EWC ac eraill wedi tynnu sylw droeon at sefyllfa anghyson llai o reoleiddio addysg o gymharu â meysydd eraill perthnasol megis meddygaeth breifat<sup>lxi</sup>. Nododd y Llywodraeth hefyd mewn cyfarfod gyda CPC ym mis Rhagfyr 2019<sup>lxii</sup> fod hyn wedi bod ar eu radar ers o leiaf 18 mlynedd. Mae’n aneglur pam cynhaliwyd Adolygiad 2016 os nad oedd newidiadau’n cael eu hystyried o ganlyniad; thema gyfarwydd a welwyd yn ein Hadolygiad ninnau.

Mae Rheoliadau Ysgolion Annibynnol Cymru yn dyddio’n ôl i 2003. Gwnaed nifer o newidiadau i gryfhau’r Rheoliadau a’r canllawiau perthnasol ers hynny yn Lloegr ac yn yr Alban, ond nid yw’r sefyllfa reoleiddio wedi symud ymlaen o gwbl yng Nghymru, ac eithrio rhai manion yng nghyswllt gwiriadau DBS a gwaith papur.

Yn 2019, daeth ysgol annibynnol yn Sir Ddinbych at sylw CPC mewn perthynas â phryderon diogelu ynghylch pennaeth yr ysgol a chred disgybl bod yr ysgol ac awdurdodau eraill wedi methu ymateb yn briodol i’r pryderon a godwyd.

Roedd y person ifanc wedi dod yn ymwybodol o hawliau plant a gwaith ein swyddfa yn ystod ymweliad arferol gan y Comisiynydd â grŵp o bobl ifanc yng ngogledd Cymru rai wythnosau’n gynharach.

Cychwynnodd cyswllt y person ifanc â’r swyddfa gyfnod dwys o waith gan y Comisiynydd a’n timau Ymchwiliadau a Chyngor a Pholisi er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu a’u hamddiffyn yn effeithiol rhag ymddygiad amhriodol y pennaeth.

Cododd hefyd nifer o faterion polisi a rheoleiddio ynghylch y fframwaith gweithredu ar gyfer Ysgolion Annibynnol.

Yn anffodus, roedd yr achos yn atgof poenus o effaith y bylchau diogelu hyn ar blant. Penderfynodd y swyddfa ddelio â’r achos ar ddwy lefel; yn gyntaf cefnogi’r person ifanc a sicrhau bod ei barn yn cael gwrandawriad, a bod gweithredu ar sail hynny trwy’r broses a’r ymchwiliadau perthnasol, ac yn ail archwilio’r bylchau yn y polisi a’r ddeddfwriaeth oedd wedi golygu bod modd i’r pennaeth dan sylw aros yn ei swydd ar hyd y cyfnod yma. Cydnabuwyd, petai ymddygiad tebyg wedi digwydd gan athro oedd wedi cofrestru mewn ysgol brif ffrwd, y byddai’r person dan sylw wedi cael eu hatal o’u swydd, ac y byddai EWC ac eraill wedi lansio camau ymchwilio a/neu ddisgyblu.

Mae’r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA) yn cynnwys llinyn ymchwilio penodol ynghylch ysgolion preswyl, ac mae wedi rhoi sylw mawr i’r achos hwn yn arbennig. Mae’r Comisiynydd a’r Llywodraeth, ymhlith eraill, wedi rhoi tystiolaeth fanwl, yn ysgrifenedig ac ar lafar, i’r Ymchwiliad hwnnw. Roedd yn amlwg o’r sesiynau tystiolaeth lafar ym mis Tachwedd 2020 fod consensws bod angen diweddarau a chryfhau’r broses reoleiddio ac arolygu ar gyfer ysgolion annibynnol, oherwydd gwahanol rolau a chylchoedd gwaith AGC, Estyn a’r Llywodraeth.



Roedd hefyd yn amlwg, fodd bynnag, nad yw'r sefyllfa hon wedi cael ei hystyried na'i datrys yn ddigonol rhwng y Llywodraeth a phartneriaid eraill perthnasol megis Estyn, EWC ac AGC, er mwyn nodi sut bydd y bylchau hyn a nodwyd yn cael eu llenwi.

Er nad yw'r Ymchwiliad wedi adrodd ar y llinyn hwn eto, a byddai'n amhriodol barnu'r canlyniad a'r argymhellion ymlaen llaw, mae'n eglur bod y gwaith hwn wedi bod yn fodd i godi cryn bryder trwy'r Ymchwiliad hwnnw ynghylch y sefyllfa ddeddfwriaethol gyfredol yng Nghymru.

*Mae'n bositif i nodi bod y Bwrdd Gweithdrefnau Diogelu Cymru wedi cytuno yn ddiweddar i gynnwys Estyn yn rhan o'r rhestr o sefydliadau i ystyried gwahodd i gyfarfodydd strategol proffesiynol ynglŷn â staff mewn ysgolion annibynnol, o dan adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol Cymru. Rydym ni'n edrych ymlaen i weld hwn yn cael ei gynnwys yn y gweithdrefnau; fe fydd yn adeiladu ar fewnbwn positif gan Estyn yn y blynyddoedd diweddar pan eu bod wedi cael eu gwahodd i gyfarfodydd o'r fath.*

Dylasai'r achos a gododd yng Nghymru weithredu fel catalydd i fwrw ymlaen gyda newidiadau yr oedd y Llywodraeth wedi nodi'n flaenorol eu bod yn angenrheidiol ar gyfer y sefyllfa reoliadol, ac eto mae'r newidiadau i'r rheoliadau yng Nghymru yn dal heb gael blaenoriaeth. Wrth ddelio gyda'r achos hwn, nodwyd nad oedd swyddogion Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i gadarnhau pob agwedd ar eu rôl a'u pwerau mewn perthynas â'r ysgol heb gynnal ymchwiliadau pellach. Adlewyrchir y diffyg eglurder hwn ynghylch y rôl a'r lleoliadau hyn mewn rhannau eraill o Atodiad C.<sup>lxiii</sup> Derbynnir bod hwn yn sector bach iawn yng Nghymru, ond mae dyletswyddau'r Llywodraeth i gynnal hawliau plant a'u cadw'n ddiogel yn berthnasol i holl blant Cymru, ble bynnag maen nhw'n cael eu haddysgu neu'n byw.

Mae hefyd yn werth nodi mai'r ffaith bod yr ysgol annibynnol hon yn ysgol breswyl oedd yr unig ffactor oedd yn galluogi ein swyddfa i edrych ar y materion yn yr achos. Ni fyddai ysgol ddyddiol annibynnol wedi dod o dan gylch gorchwyl CPC, gan mai darparu llety gan ysgol sy'n ei greu'n wasanaeth plant a reoleiddir yng Nghymru<sup>lxiv</sup>, sef yr hyn mae pwerau'r Comisiynydd yn ei gwmpasu. Rydym ni'n ymwybodol bod gan y Comisiynydd Pobl Hŷn (swydd a grewyd ar ôl creu CPC) bwerau cryfach yng nghyswllt safleoedd lle gall pobl hŷn fod, gan gynnwys pwerau mynediad i safleoedd i siarad â phobl hŷn. Rwy'n argymhell bod hyn yn derbyn sylw fel rhan o adolygiad ehangach o'm deddfwriaeth, fel bod fy mhwerau'n cwmpasu unrhyw leoliadau preifat sy'n effeithio ar les a hawliau plant yng Nghymru, yn unol â phrif nod fy rôl.

Mewn cyfarfod gyda CPC ym mis Rhagfyr 2019<sup>lxv</sup> bu'r swyddogion yn adfyfrio bod 'cyfarwyddyd clir' wedi dod gan y Gweinidog i ddatrys y bylchau cyfreithiol oedd yn bodoli ynghylch y sector, ond ni chyflawnwyd hynny eto. Unwaith eto, derbynnir bod Covid-19 wedi chwarae rhan yn hyn, ond rhoddwyd sicrwydd ym mis Chwefror 2020 y byddai newidiadau'n cael eu gwneud ymhell cyn diwedd tymor y Senedd<sup>lxvi</sup>. Roedd hynny'n awgrymu bod dealltwriaeth dda o'r gwaith a'i fod yn mynd rhagddo, ond yn hwyr yn 2020 roedd yn eglur o ymateb y Llywodraeth i argymhelliad adroddiad blynyddol CPC<sup>lxvii</sup> fod y gofynion cyfreithiol yn dal heb eu datrys, ac felly bod unrhyw gynnydd yn cael ei lesteirio ar y sail honno.

Mewn llythyr at berchnogion pob ysgol annibynnol yng Nghymru ym mis Hydref 2020 ynghylch materion diogelu a gweithredol ar gychwyn blwyddyn academaidd newydd, ni soniodd y Llywodraeth o gwbl am unrhyw newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau, nac unrhyw ddisgwyliadau ychwanegol megis cofrestru gwirfoddol gydag EWC, opsiwn sydd eisoes yn agored i athrawon ysgolion annibynnol.





Mae hyn yn dangos nad yw'r gwaith y tu ôl i'r maes polisi hwn wedi bod yn flaenoriaeth, nac wedi gwneud cynnydd da. Nid yw chwaith, yn fy marn i, yn dangos Llywodraeth sy'n cymryd pob cam posibl i ddiogelu a hybu hawliau plant ar draws Cymru, fel sy'n ofynnol er mwyn iddynt gydymffurfio â CCUHP.

Mae'n aneglur beth arall fyddai'n angenrheidiol er mwyn i'r Llywodraeth symud ar y mater pwysig, brys hwn, yn wyneb y diffygion difrifol a gododd mewn ysgol yng Nghymru ac ymchwiliad dan arweiniad barnwr i'r cefndir deddfwriaethol y tu ôl i'r diffygion hynny, yn ogystal â hanes hir o godi'r materion hyn yn uniongyrchol gyda nhw.

## Adolygiadau ymarfer plant

Roedd yr Adolygiad hwn yn deillio o'r argymhellion a'r dysgu a nodwyd gan Adolygiad Ymarfer Plant (CPR) Dylan Seabridge, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016. Yn ogystal ag ystyried y materion polisi a

godwyd gan yr Adolygiad Ymarfer Plant, mae'r broses CPR ei hun wedi bod yn destun craffu anorfod ar hyd y gwaith ar yr Adolygiad hwn. Y meysydd allweddol i'w datblygu a amlygwyd gan y Llywodraeth ei hun, a gan fy nhîm a minnau<sup>lxviii</sup>, yw'r angen am sicrhau bod dysgu'n cael ei rannu y tu hwnt i'r rhanbarth y deilliodd ohono, a bod adroddiadau'n cael eu coladu a'u storio ar lefel genedlaethol, yn hytrach na'u cyhoeddi am gyfnod cyfyngedig o amser gan y rhanbarth perthnasol.

Addawodd ymateb gwreiddiol y Llywodraeth i'r CPR ym mis Gorffennaf 2016 y byddai'r canllawiau CPR perthnasol yn cael eu hadolygu a'u diweddarau<sup>lxix</sup>. Nid yw'r canllawiau CPR wedi cael eu newid yn sylweddol ers y cyfnod hwnnw; er bod adnewyddu wedi digwydd yn 2019, ni wnaeth hynny unrhyw newidiadau pwysig i'r canllawiau ar y pryd. Gellid gweld hynny fel cyfle a gollwyd i wella'r materion ymarferol a llywodraethu sy'n ymwneud â'r broses CPR.

Yn eu tystiolaeth lafar i ymchwiliad IICSA i ysgolion preswyl ym mis Tachwedd 2020, categoreiddiodd y Llywodraeth Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fel cyflwyno "trefniadau diogelu cryfach yng Nghymru".

Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, nid yw'r newidiadau a nodwyd yn Adolygiad Thematig Prifysgol Caerdydd ym mis Ionawr 2020, gan gynnwys yr angen am sicrhau bod adroddiadau CPR ar gael am gyfnod hwy na 12 wythnos, a rhannu'r dysgu fel mater o drefn ar draws Cymru, gan ddefnyddio dulliau creadigol o ddsbarthu a rhannu gwybodaeth, wedi cael eu gweithredu eto. Codwyd materion o'r fath hefyd yn adolygiad Cordis Bright o weithredu CPRs yn 2015. Nid yw'r Llywodraeth wedi darparu ymateb ffurfiol i'r setiau hyn o argymhellion, felly mae'n aneglur pa agweddau sydd wedi cael eu derbyn ac a fydd yn cael eu symud ymlaen.

Comisiynwyd Adolygiad Thematig Prifysgol Caerdydd gan yr NISB, yn union fel adroddiad Cascade yn 2017 ar ddewis addysgu gartref. Nid oes mecanwaith yn y ddeddfwriaeth na'r canllawiau perthnasol i'r Llywodraeth ymateb i adroddiadau a gomisiynwyd gan yr NISB, sy'n creu tir llwyd o ran atebolrwydd a thryloywder. Mae rôl yr NISB wedi esblygu ers iddo gael ei greu, ond gallai fod yn ddoeth nodi yn y canllawiau sut mae eu gwaith a'u rôl yn gorgyffwrdd â dyletswyddau'r byrddau rhanbarthol i gynhyrchu adroddiadau a chynlluniau gweithredu. Ar ben hynny, mae angen egluro'r llywodraethiant ynghylch lledaenu canfyddiadau CPR, a rôl i naill ai'r Llywodraeth a/neu'r NISB wrth sicrhau hynny.



Mae'r Llywodraeth wedi comisiynu arbenigwr annibynnol, Lianne Jones, i weithio ar yr adolygiad diogelu sengl unedig sy'n cynnwys gwaith ynghylch cronfa genedlaethol a llyfrgell o'r holl adolygiadau sector cyhoeddus o ddigwyddiadau difrifol. Rydym hefyd yn ymwybodol bod peth gwaith wedi cychwyn gyda Phrifysgol Caerdydd ar gronfa ganolog o'r holl CPRs a gwblhawyd, ac mae hynny i'w groesawu, ond rydym ni'n dal heb ddigon o eglurder ar hyn o bryd ynghylch a yw'r rôl hon yn rhan o waith yr NISB, prosiect parhaus Prifysgol Caerdydd, y trydydd sector, neu rywle arall. Yn y cyfamser, rydym ni'n dal heb gofnod canolog o'r holl CPRs a gynhaliwyd yng Nghymru, felly nid yw'r dysgu o'r Adolygiadau hynny ar gael ar lefel genedlaethol.

Mae argymhellion ychwanegol o Adolygiad Thematig Prifysgol Caerdydd y mae angen eu rhoi ar waith. Er enghraifft, nid ymddengys bod y Llywodraeth wedi ystyried unrhyw rôl iddynt eu hunain wrth ledaenu'r dysgu o CPRs ar lefel genedlaethol, neu sicrhau bod hynny'n digwydd. Amlygwyd hynny fel maes i'w ddatblygu ymhellach ers yr adolygiad cyntaf gan Cordis Bright yn 2015. Mae systemau yn y gwasanaethau iechyd ar gyfer rhannu dysgu ar lefel genedlaethol, ond nid yw hynny'n cael ei ailadrodd fel mater o drefn ar draws sectorau eraill. Y rheswm am hynny yw nad yw'r ddeddfwriaeth na'r canllawiau'n gofyn bod hynny'n digwydd ar hyn o bryd, ac felly mae'n dal yn fwch allweddol wrth sicrhau bod pryderon diogelu yn hysbys ac yn destun gweithredu ledled Cymru.

Cydnabyddir y gallai'r gwaith a gomisiynwyd ar hyn o bryd, a nodwyd uchod, fynd peth o'r ffordd at unioni hynny, ond mae ei gwmpas yn aneglur, ac mae angen sicrhau bod yr holl argymhellion blaenorol a dderbyniwyd yn cael eu symud ymlaen wrth i newidiadau gael eu gwneud i lywodraethiant a systemau CPR ac adolygiadau eraill o ddigwyddiadau difrifol.

## Dull y Llywodraeth o ymdrin ag Adolygiad CPC

Roedd llythyr y Llywodraeth at CPC ar 11 Rhagfyr 2020 yn nodi y byddai cais ffurfiol CPC am ddogfennau, yn unol â'r pwerau cyfreithiol sy'n cael eu defnyddio ar gyfer yr Adolygiad hwn, yn cael ei drin fel cais Rhyddid Gwybodaeth (FOI).

Yn gyntaf, mae hyn y tu hwnt i'r terfyn amser statudol o 20 diwrnod gwaith ar gyfer delio â chais FOI, gan fod y cais gwreiddiol wedi'i wneud ar 25 Medi 2020. Yn ail, mae gan CPC bŵer adolygu statudol, ond mae cyfyngu sylweddol ar y pŵer hwnnw os bernir nad yw'n cynnwys mwy o fynediad at bapurau na'r hyn fyddai ar gael i unrhyw aelod o'r cyhoedd trwy'r fframwaith FOI. Os bydd pob cais am ddogfennau heb eu cyhoeddi yn cael eu trin fel ceisiadau FOI, bydd gofyn bod yr holl bapurau a gaiff eu rhyddhau ar gyfer adolygu wedyn yn cael eu cyhoeddi o dan brosesau FOI. Mae hynny'n golygu bod papurau megis cyngor i Weinidogion a rhai papurau Cabinet yn debygol o gael eu crynhoi'n sylweddol cyn eu darparu ar gyfer adolygiad. Mae hyn yn rhwystr sylweddol o safbwynt y Comisiynydd yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol. Mae'n eithriadol annhebygol, wrth i'r deddfwriaethwyr greu rôl y Comisiynydd annibynnol, eu bod nhw'n disgwyl na fyddai gan y swydd honno fwy o bŵer i ymchwilio i swyddogaethau'r Llywodraeth mewn perthynas â hawliau plant nag a fyddai gan unrhyw aelod o'r cyhoedd. Mae hwn yn faes i'w ddiwygio yr wyf yn cyflwyno argymhelliad yn ei gylch yn yr adroddiad hwn.

Bydd gofyn bod pwerau'r ddeddfwriaeth gyfredol yn cael eu hadolygu a'u diwygio fel y nodwyd uchod. Mae modd cywiro diffyg arall yn y ddeddfwriaeth trwy adolygiad cynhwysfawr.



Gan mai'r Llywodraeth yw'r corff sy'n penodi ac yn ariannu swyddfa'r Comisiynydd, mae'n gallu atal ac achosi oedi effeithiol i ymdrechion y Comisiynydd i archwilio'u hymddygiad, ac ni all hynny fod yn iawn nac yn dderbyniol mewn cymdeithas ddemocrataidd. Ymhellach, nid yw'r trefniant hwn yn cydymffurfio â safon ryngwladol Egwyddorion Paris, ac o ganlyniad mae'n destun siom aruthrol bod y Llywodraeth, yn ystod yr Adolygiad hwn, wedi gwrthod galwadau Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (PPIA) y Senedd, yn eu hadroddiad Hawliau Plant yng Nghymru, i drosglwyddo penodiad ac atebolrwydd y swyddfa i'r Senedd.

Yn flaenorol mae'r Llywodraeth wedi ymateb bod y trefniadau yng Nghymru, heb ystyried y safonau rhyngwladol hyn, yn gweithio'n dda oherwydd y perthnasoedd gwaith cadarnhaol presennol. Yn fyr, barnwyd bod y trefniadau'n gweithio'n ymarferol, felly pam mae angen newid? Mae'n wir bod y berthynas fel arfer yn un gydweithredol, ac yn ystod y pandemig mae ein swyddfa wedi cyfathrebu â swyddogion a gweinidogion yn feunyddiol i'w cynghori a'u cefnogi, yn ogystal â chraffu a monitro. Serch hynny, pan holwyd ynghylch penodi'r Comisiynydd, rydym wedi tynnu sylw droeon at y ffaith nad yw hynny'n *atal* problemau rhag codi oherwydd diffygion cynhenid y trefniant hwn.

Bellach mae tystiolaeth glir bod sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol swyddfa'r Comisiynydd wrth adolygu Llywodraeth Cymru yn anfoddhaol, a bod rhaid ei newid er mwyn rhoi sylw i'r mater hwn a'r bylchau neu'r diffygion niferus mae'r Adolygiad hwn wedi'u hamlygu.

Mae'n anodd osgoi'r casgliad bod dull y Llywodraeth o ymdrin â'r Adolygiad hwn, ac â rôl swyddfa'r Comisiynydd wrth gynnal yr Adolygiad, wedi bod yn anfoddhaol. Derbynnir, wrth gwrs, fod pandemig Covid-19 a'r gofynion yn deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd (Brexit) wedi galw am gryn dipyn o adnoddau'r Llywodraeth, ond roedd y ceisiadau a gyflwynwyd i'r Llywodraeth yn benodol ac yn gyfyngedig.

Dehongliad y Llywodraeth o'r ddeddfwriaeth sy'n sylfaen ar gyfer rôl CPC oedd bod testun y pwerau cyfreithiol "yn annigonol i ofyn bod Gweinidogion Cymru yn rhyddhau gwybodaeth ar gyfer eich adolygiad". Mae'r ddeddfwriaeth yn benagored yn hyn o beth; nid yw'n cynnwys yn benodol ddarparu dogfennau penodol o dan bŵer Adran 72B, ond nid yw chwaith yn dweud nad oes gofyn bod y Llywodraeth yn rhyddhau gwybodaeth. Buasai dehongliad pwrpasol o'r ddeddfwriaeth yn dangos bod angen gweld ac adolygu'r dystiolaeth ynghylch ymarfer y swyddogaethau hynny, er mwyn cynnal Adolygiad o sut bu'r Llywodraeth yn ymarfer eu swyddogaethau. Serch hynny, rydym wedi cwblhau'r Adolygiad hwn ar sail y dogfennau helaeth oedd eisoes ar gael i ni a/neu yn y parth cyhoeddus.



# CANFYDDIADAU'R ADOLYGIAD

## Dewis addysgu gartref

### Ymgynghoriadau

Mae'n amlwg o'r nifer fawr o ymatebion ymgynghori ar bob achlysur pan fu'r Llywodraeth yn ceisio unrhyw farn ar y maes hwn, bod y mwyafrif yn dod gan deuluoedd unigol sydd â gwrthwynebiad ideolegol i unrhyw rôl gan y wladwriaeth yng nghyswllt addysgu gartref, a bod y Llywodraeth yn rhoi pwysiad cyfartal i bob ymateb. Er enghraifft, mae adroddiad proses ymgynghori 2019<sup>lxx</sup> yn crynhoi faint o ymatebion a gafwyd i bob cwestiwn, ac yn cynnwys datganiadau sy'n adlewyrchu barn y mwyafrif, p'un a yw'r rhain wedi dod oddi wrth unigolion sy'n defnyddio atebion stoc neu wedi'u paratoi ymlaen llaw, neu sefydliad sy'n cynrychioli barn llawer o bobl. Mae'r adroddiad yn gwahaniaethu rhwng safbwyntiau unigolion/derbynwyr gwasanaeth, neu sefydliadau cenedlaethol neu ddarparwyr gwasanaeth; ond gan nad yw'r adroddiad yn nodi'r camau nesaf na'r casgliadau y daethpwyd iddynt, nid oes modd deall sut mae'r safbwyntiau hyn a'r broses hon wedi dylanwadu yn y pen draw ar y canlyniad a'r camau gweithredu a symudwyd ymlaen gan y Llywodraeth.

Ar y sail honno, gellid barnu bod system ymgynghori'r Llywodraeth yn debycach i system ddeisebau; gallai grŵp lobio mawr sy'n bodoli gael ei ddefnyddio er mwyn gwrthweithio neu rwystro'n effeithiol gynigion y mae'r Llywodraeth yn ceisio'u symud ymlaen. Mae'n glir o lythyr y Gweinidog ym mis Gorffennaf 2020<sup>lxxi</sup> fod y Llywodraeth yn dal i bryderu ynghylch risg her gyfreithiol petai eu cynigion yn cael eu symud ymlaen, ffactor a oedd yn amlwg yn bwrw cysgod dros eu penderfyniad terfynol.

Nid yw adroddiadau crynodol y Llywodraeth ar gyfer pob ymgynghoriad yn nodi eu casgliadau o ran beth ddylai ddigwydd o ganlyniad i'r ymatebion, ac o ganlyniad mae'n anodd gweld tryloywder ac atebolrwydd yng ngweithrediad presennol y system. (Nid yw hynny'n rhywbeth unigryw i'r meysydd polisi hyn.)

Ar ben hynny, mae rhai ymgynghoriadau wedi'u nodi fel rhai sy'n "disgwyl canlyniad" ar dudalennau'r Llywodraeth ar y we, a hynny flynyddoedd ar ôl eu cynnal. Yng nghyswllt addysgu gartref yn benodol, ni chyhoeddwyd adroddiad ymgynghori 2015 tan 2017, ac nid adroddwyd eto ar yr ymgynghoriad ar reoliadau cronfa ddata a gaeodd ym mis Mai 2020.



## Hawliau plant

Mae rhwymedigaeth ar y Llywodraeth i roi sylw i CCUHP bob amser, yn ei holl waith. Mae gofyn bod y Llywodraeth, o dan Erthygl 4 o CCUHP, “yn ymgymryd â phob mesur deddfwriaethol, gweinyddol ac arall priodol i weithredu’r hawliau a gydnabyddir yn y Confensiwn presennol”. Trwy ganiatáu i’w cynigion arfaethedig fod yn destun oedi neu ddargyfeirio ar sawl achlysur, ni ellir dweud bod y Llywodraeth wedi cyflawni’r ddyletswydd hon yn llwyddiannus.

Mae rhai o ddatganiadau’r Llywodraeth ynghylch addysgu gartref yn cyfeirio at hawliau plant a’r angen am gydbwysu ystod o hawliau wrth wneud eu penderfyniadau<sup>lxxii</sup>. Fodd bynnag, nid yw’n eglur sut mae’r Llywodraeth wedi ymgymryd ag ymarferiad cydbwysu o’r fath, ac eto wedi symud ymlaen gyda chynigion oedd heb gyflawni’r hyn y dywedwyd wrthynt ei fod yn angenrheidiol er mwyn diogelu a chynnal holl hawliau plant yn briodol. Mae’n gyffredin gweld y Llywodraeth yn cyfeirio at sut maen nhw wedi ystyried hawliau, ond heb nodi *a yw’r rhain* wedi llywio’r penderfyniad a wnaed yn y pen draw *na sut*.

Mae’n annerbyniol bod diffyg tryloywder ac atebolrwydd o ran sut mae’r Llywodraeth yn ymarfer eu swyddogaethau yng nghyswllt hawliau plant. Nid yw’r Llywodraeth yn dangos eu bod yn cydymffurfio â dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant, yn hytrach maent yn gwneud defnydd dethol o hawliau plant lle mae’r rheiny’n cefnogi penderfyniadau a wnaed ganddynt eisoes.

Wrth ddod at y penderfyniad terfynol, ddiwedd gwanwyn 2020, i oedi’r gwaith ar y canllawiau statudol cryfach a’r Rheoliadau ar gyfer ysgolion annibynnol, **nid yw’r Llywodraeth wedi cydymffurfio â’u dyletswyddau o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011** a CCUHP.

Fel amcangyfrif ceidwadol, bu o leiaf 20 o gyfarfodydd ac 16 o lythyron yn ôl ac ymlaen mewn perthynas â’r ymateb i adolygiad ymarfer plant Seabridge ac addysgu gartref, a hynny rhwng y Comisiynydd Plant a Llywodraeth Cymru yn unig. Mae hynny ar ben yr holl ymgysylltu ychwanegol a restrir yn Atodiad B.

Ochr yn ochr â hyn cafwyd ymatebion dilynol gan Lywodraeth Cymru i bedwar adroddiad blynyddol gan CPC, pedair sesiwn graffu gan y Pwyllgor PPIA, saith cwestiwn ysgrifenedig, pedair trafodaeth yn y Siambr, tri adroddiad allanol a phum proses ymgynghori.

Er gwaethaf hynny mae’r canllawiau yn dal yn anstatudol a heb newid i raddau helaeth ers i mi gychwyn yn swydd y Comisiynydd Plant.

## Canlyniadau

Heb unrhyw dystiolaeth i’r gwrthwyneb, mae’n anodd deall pam mae’r Llywodraeth wedi anwybyddu’r pryderon a godwyd gan Seabridge CPR na’r canlyniadau cyfannol ar gyfer plant sy’n cael eu haddysgu gartref.

Yn arbennig, mae’n amlwg, er gwaethaf datganiad o fwriad y Llywodraeth ym mis Ionawr 2018, fod diffyg eglurder yn parhau ynghylch beth allai gael ei gyflawni trwy ddilyn llwybr deddfwriaeth eilaidd. Roedd y dewis hwn yn anochel yn cyfyngu ar yr opsiynau oedd ar gael i’r Llywodraeth, o dan y pwerau mae’r ddeddfwriaeth bresennol yn eu rhoi. Nid yw hon yn ffordd addas o fynd ati i newid polisi a deddfwriaeth; os yw’r Llywodraeth yn ceisio gwneud newidiadau penodol mae angen iddyn nhw ddewis yr offeryn deddfwriaethol cywir i gyflawni’r newid hwnnw.



Mae cyflwyno cyfeiriad polisi, ond cyfyngu'r allbwn i ddeddfwriaeth eilaidd, wedi golygu nad oedd y Llywodraeth yn mynd i fedru mynd mor bell ag oedd eu bwriad polisi wedi nodi, ac felly nid oedd hon yn ffordd addas o ymdrin â'r materion oedd yn derbyn sylw.

Nid oes unrhyw fater cysylltiedig â datganoli a fyddai'n llesteirio neu'n cyfyngu ar gamau gweithredu'r Llywodraeth yn hyn o beth; mae materion addysg wedi'u datganoli i Gymru.

## Ysgolion annibynnol

Mae'n anffodus iawn, wrth i ni nesáu at ddiwedd pumed tymor y Senedd, na wnaed dim cynnydd gwirioneddol ar sefyllfa reoliadol ysgolion annibynnol ers cloi'r gwaith a wnaed tua diwedd pedwerydd tymor y Senedd (y Cynulliad ar y pryd).

Roedd yn amlwg o ddechrau'r pumed tymor nad oedd y Llywodraeth yn bwriadu symud ymlaen gyda'r gwaith hwn, ond nid wyf wedi gallu cael hyd i dystiolaeth ynghylch *pam* na symudwyd ymlaen yn rhagweithiol â'r gwaith o'r tymor blaenorol wedi etholiad 2016, o ystyried yr adolygiad a gynhaliwyd rhwng 2014 a 2016.

Rwy'n cydnabod wrth gwrs bod rhai diwygiadau pwysig i ddeddfwriaeth addysg wedi digwydd yn y Tymor yma, yng nghyswllt plant ag anghenion dysgu ychwanegol a phroses ehangach Diwygio'r Cwricwlwm. Nid wyf am fychanu'r cyflawniadau hynny na'r gwaith oedd yn ofynnol i symud y darnau hynny o ddeddfwriaeth ymlaen. Yr hyn rwy'n ei godi, fodd bynnag, yw'r methiant i roi blaenoriaeth i fater a oedd eisoes wedi'i dderbyn fel mater diogelu ar gychwyn tymor y Llywodraeth, ac a oedd felly yn fater oedd yn effeithio ar hawliau plant.

Mewn modd tebyg i'r sefyllfa yng nghyswllt addysgu gartref, nid oes prinder cyngor ac arweiniad ar gael i'r Llywodraeth ar draws y sector. Yn wahanol i addysgu gartref, fodd bynnag, mae'r llwybr clir ymlaen wedi bod yn hysbys cyn i dymor y Senedd gychwyn yn 2016. Ymddengys hefyd bod yr angen am ddiwygio yn y maes hwn yn cael ei dderbyn yn gyffredinol, gan gynnwys yn achos y corff troswaol sy'n cynrychioli ysgolion annibynnol yng Nghymru<sup>lxxiii</sup>. O ganlyniad mae'n achosi mwy fyth o siom a phryder nad yw'r bylchau cydnabyddedig wedi derbyn sylw.

Mewn patrwm sydd fel petai'n dod i'r amlwg, mae hefyd yn eglur bod y Llywodraeth yn dal heb ddatrys problem ai deddfwriaeth sylfaenol neu eilaidd sy'n ofynnol er mwyn gwneud y newidiadau angenrheidiol, gan gynnwys cyflwyno gofyniad bod athrawon mewn ysgolion annibynnol yn cofrestru gydag EWC. Mewn cyferbyniad â'r sefyllfa yn achos addysgu gartref, mae'r ansicrwydd hwn wedi achosi oedi cyn cymryd unrhyw gamau.

Cawsom ein gadael mewn sefyllfa lle roedd un maes polisi (addysgu gartref) i symud ymlaen ar sail gyfyngedig gan ddefnyddio deddfwriaeth eilaidd, hyd yn oed lle nad oedd hynny o bosib yn addas nac yn ddigonol i gyflawni'r nodau polisi, tra bod y gwaith yng nghyswllt ysgolion annibynnol yn syml heb wneud cynnydd o gwbl oherwydd yr ansicrwydd ynghylch y llwybr cyfreithiol i'w ddilyn.

Yn amlwg mae galw aruthrol wedi bod am gyngor cyfreithiol ac adnoddau yn gyffredinol ar hyd y Tymor Senedd hwn, ac mae Brexit, pandemig Covid-19 a diwygio addysgol i gyd wedi dylanwadu ar hynny<sup>lxxiv</sup>.





Mae'r Llywodraeth wedi datgan bod hynny'n wir. Ond os yw'r Llywodraeth wedi nodi meysydd lle mae angen newid y ddeddfwriaeth mewn rhyw ffordd, mae'n annerbyniol parhau yn y sefyllfa ansicr honno. Mae'n effeithio ar gynllunio i'r dyfodol cyn tymor *nesafy* Senedd, gan fod y sefyllfa'n dal heb ei datrys o ran diogelu ac ysgolion annibynnol.

Yn ystod y cyfnod hwn gwelwyd hanes pryder sylweddol mewn perthynas ag ysgol yng ngogledd Cymru. Er na allaf ddweud y byddai hynny'n bendant wedi cael ei osgoi petai newid rheoliadol wedi digwydd yn gynt, byddai'r diwygiadau a gynigiwyd yn 2014 a diweddariadau i'r safonau ysgolion annibynnol bron yn sicr wedi darparu mecanweithiau ar gyfer dod â hyn i fwcwl yn llawer cyflymach, gan leihau'r trlloed emosiynol i'r bobl ifanc dan sylw a llawer o resynu ymhlith asiantaethau statudol yr oedd eu dwylo wedi'u clymu, ac a oedd felly'n methu cymryd camau pendant, cyflym. Mae'n siom aruthrol bod hyn wedi digwydd er bod y Llywodraeth yn gwybod am y bylchau hyn.

Yn olaf, fel y nodwyd uchod, dim ond oherwydd bod yr ysgol annibynnol hon yn ysgol breswyl yr oedd gan CPC y gallu i edrych ar y materion yn yr achos hwnnw; darparu llety gan ysgol sy'n golygu ei fod yn wasanaeth plant a reoleiddir yng Nghymru<sup>lxv</sup>, a dyna sy'n cael ei gwmpasu gan bwerau'r Comisiynydd. Cynigir newidiadau i ddeddfwriaeth y Comisiynydd fel rhan o argymhellion yr adroddiad hwn, ond un newid yn arbennig sy'n ofynnol wedi'r achos hwn a'r Adolygiad hwn yw'r pŵer i adolygu neu archwilio gwaith unrhyw leoliadau preifat yng Nghymru sy'n darparu gwasanaethau i blant, megis ysgolion annibynnol.

## Adolygiadau Ymarfer Plant

Er bod adolygiadau o'r broses Adolygiadau Ymarfer Plant wedi cael eu cynnal yn ystod y Tymor Senedd hwn, ni wnaed newidiadau sylweddol i'r canllawiau nac i'r trefniadau ymarferol a llywodraethiant.

Ni symudwyd ymlaen i gyflawni addewidion a wnaed mewn ymateb i Seabridge CPR i ddysgu gwersi a gwella gwasanaethau mewn perthynas â CPRs eu hunain, yn ogystal â'r materion polisi cysylltiedig. Ymddengys o'm Hadolygiad fod "adolygu'r" canllawiau yn golygu'n syml newid y cyfeiriadau i'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf yn hytrach na gwneud newidiadau neu ychwanegiadau sylweddol.

Er bod Llywodraeth Cymru yn gallu dweud yn gywir eu bod wedi cymryd rhai camau ers i'r CPR gael ei gyhoeddi, nid yw'r camau hynny wedi ymdrin â'r materion creiddiol a nodwyd gan yr Adolygiad, ac felly ni ellir dweud eu bod yn rhoi sylw i'r diffygion yr oedd y Llywodraeth yn derbyn eu bod yn bodoli.

Mae'n aneglur sut mae ystyriaeth weithredol o'r materion hawliau plant a nodwyd oedd dan sylw wedi effeithio ar unrhyw rai o'r diwygiadau hynny na dylanwadu arnynt. Mae gofyn bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ymateb clir i Adolygiad Thematig Prifysgol Caerdydd ym mis Ionawr 2020, yn nodi pa gamau bydd yn eu cymryd i roi'r argymhellion ar waith, er mwyn gwella sut mae'r dysgu a'r pryderon a geir mewn CPRs yn cael eu rhannu ledled Cymru a chryfhau'r system CPR ymhellach.

## Pwerau Comisiynydd Plant Cymru

Mae'r broses o gynnal yr Adolygiad hwn o'r Llywodraeth gan ddefnyddio'r pŵer yn Adran 72B am y tro cyntaf wedi amlygu rhai cyfyngiadau clir ar bwerau cyfreithiol y Comisiynydd.



Mae'n iawn bod Cymru'n ymfalchio yn y ffaith mai hi oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i greu swydd Comisiynydd Plant, a'i bod hefyd wedi mynd ymlaen i greu swyddi Comisiynwyr eraill i Gymru ers 2000. Ond mae llawer o fylchau yn y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r rôl, gan gynnwys diffyg manylion ynghylch sut gall rhai o'r pwerau gael eu hymarfer.

Mae'r pwerau mewn perthynas ag archwilio achosion ac adolygu'r trefniadau ar gyfer datgelu camarfer, cwynion ac eiriolaeth yn llawer mwy datblygedig, gan gyflwyno prosesau ar gyfer casglu dogfennau a thystiolaeth gan dystion, er enghraifft. Efallai nad yw'n syndod bod manylion clir mewn perthynas â'r pwerau hyn gan fod y Swyddfa'n deillio'n wreiddiol o adroddiad Waterhouse, oedd yn delio gyda materion yn achosion plant unigol a phlant oedd ddim yn cael gwrandawriad. Fodd bynnag, mae'n aneglur pam mae'r pŵer i adolygu o dan Adran 72B wedi'i ddatblygu mor annigonol mewn cymhariaeth, ac mae hynny wedi bod yn rhwystr clir wrth weithio ar yr Adolygiad hwn.

Byddai adolygiad o ddeddfwriaeth y Comisiynydd hefyd yn caniatáu ar gyfer argymhellion eraill, megis argymhelliad Pwyllgor PPIA y Senedd y dylai'r Llywodraeth, "ar y cyfle deddfwriaethol cynharaf, drosglwyddo cyfrifoldeb am benodi, atebolrwydd ac ariannu Comisiynydd Plant Cymru i'r Senedd"<sup>lxxvi</sup>, yn unol â safon ryngwladol Egwyddorion Paris. Yn eu hymateb ffurfiol<sup>lxxvii</sup> gwrthododd y Llywodraeth yr argymhelliad hwn yn llwyr, gan nodi y bydd "unrhyw newid yn y trefniadau penodi ac atebolrwydd yn galw am ddeddfwriaeth sylfaenol; nid oes amser deddfu ar gael yn y tymor Senedd hwn." Os felly, rhaid i'r Llywodraeth nesaf ystyried hyn ar y cyfle cynharaf posibl, ac mae canfyddiadau'r Adolygiad hwn yn cryfhau'r galwadau hynny ymhellach.

## Hawliau plant

Nôl yn 2015 pan gyflwynwyd yr ymgynghoriad ar ganllawiau anstatudol ar gyfer Addysgu Gartref, nododd yr Asesiad Effaith ar Hawliau Plant (CIA) a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r canllawiau "*Na nodwyd gwrthdaro ag erthyglau CCUHP*"<sup>lxxviii</sup> Roedd hynny er gwaethaf y ffaith nad oedd y cynigion yn cryfhau'r trefniadau ar gyfer gweld plant na siarad â nhw am eu haddysg. Roedd manylion y CIA yn edrych ar agweddau cadarnhaol o'r cynigion yn unig, ac nid ar unrhyw elfennau negyddol na hepgoriadau.

Gwaetha'r modd, mae hynny'n aml yn digwydd yn achos CIA Llywodraeth Cymru<sup>lxxix</sup>; ymddengys bod amharodrwydd i nodi na chydabod unrhyw effeithiau negyddol posibl a allai ddeillio o'r cynnig sy'n cael ei roi gerbron. Mae'n anodd meddwl am *unrhyw* benderfyniad a fydd yn creu canlyniadau cadarnhaol yn unig i bawb, heb osod baich ychwanegol ar rywun arall o ganlyniad; felly mae nodi nad oes materion yn codi yng nghyswllt CCUHP yn anghyflawn ac yn anonest. Ymhellach, dylai gwireddu hawliau plant fod yn nod cynyddol, fel bod mwy i adeiladu arno bob amser, hyd yn oed pan fydd cynigion at ei gilydd yn gyffredinol gadarnhaol i blant.

Pan gyhoeddwyd cynigion ymgynghori 2019 ar addysgu gartref, roedd y CIA<sup>lxxx</sup> yn nodi y byddai'r Llywodraeth yn "*mynd ati'n uniongyrchol i roi Erthygl 4 ar waith, sy'n galw ar wladwriaethau i 'ymgymryd â phob mesur deddfwriaethol, gweinyddol ac arall priodol er mwyn gweithredu'r hawliau a gydnabyddir yn y confensiwn presennol*". Erbyn hyn cydnabuwyd nad oedd y cynigion blaenorol yn cyd-fynd ag Erthygl 4 o CCUHP, er gwaethaf yr honiad blaenorol nad oedd gwrthdaro ag erthyglau CCUHP.





Ni fu'r penderfyniad terfynol i beidio â symud ymlaen gyda'r ddau newid allweddol i bolisi a deddfwriaeth y mae'r Adolygiad hwn yn eu hystyried yn destun CRIA. O ganlyniad, nid yw effaith peidio â symud ymlaen gyda'r cynigion hyn wedi cael ei hystyried yn llawn gan y Llywodraeth wrth wneud penderfyniad o'r fath, er gwaethaf eu rhwymedigaethau cyfreithiol o dan Fesur 2011. Fel y nodwyd yn y Cronolegau, cyhoeddwyd CRIA *wedi hynny* ddiwedd mis Medi 2020, ond roedd y Gweinidog wedi egluro cyn hynny nad oedd CRIA wedi cael ei lunio mewn perthynas â'r penderfyniadau a wnaed yn gynharach y flwyddyn honno.

Mae llawer o'r trafodaethau a dynnwyd o gyfarfodydd gyda Gweinidogion a swyddogion yn adlewyrchu'r ffaith bod y Llywodraeth wedi honni droeon bod eu gwaith yn ymwneud ag addysg plant yn unig. Fodd bynnag, gellir gweld derbyn addysg mewn unrhyw leoliad fel hawl sy'n borth, gan ei bod yn cyfrannu at wireddu llawer iawn o hawliau plant o dan CCUHP, gan gynnwys yr hawliau i dderbyn gwybodaeth a mynegi barn, i ddatblygu eu potensial, ac i ddeall beth mae arnyn nhw ei angen i fod yn iach, yn hapus ac yn ddiogel. Mae datblygu cyfathrebu hefyd yn galluogi plant i gymdeithasu a rhyngweithio ag eraill o'u cwmpas.

Yn y Sesiwn Lawn ym mis Ionawr 2018, dyma ddywedwyd gan y Gweinidog: *"Rwy'n credu bod gwella canlyniadau i bob dysgwr, p'un a ydyn nhw'n cael eu haddysgu gartref trwy ddewis neu mewn addysg brif ffrwd, yn cyfrannu at erthygl 3, erthygl 4, erthygl 5, erthygl 12, ac erthyglau 18, 19, 24, 28 a 29 o CCUHP<sup>xxxix</sup>, felly fan lleiaf mae'n rhaid bod y Llywodraeth wedi gorfod ystyried sut byddai'r penderfyniad i beidio â symud ymlaen gyda'r diwygiadau a gynlluniwyd yn effeithio ar wireddu'r Erthyglau hyn.*

Ni allwn ddweud a fuasai'r canlyniad terfynol yr un fath, ac ni ellir tanbrisió'r pwysau aruthrol a achoswyd gan y pandemig. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth wedi methu â chydymffurfio â'u gofynion cyfreithiol yn hyn o beth, a thrwy wneud hynny maent wedi gollwng darnau o waith yr oeddent hwy eu hunain wedi'u nodi fel ffyrdd pwysig o gryfhau sut gallai plant sy'n cael eu haddysgu gartref neu mewn ysgolion annibynnol gael mynediad i'w holl hawliau.

## Gweithio ar draws y llywodraeth

Mae'r penderfyniad i beidio â symud ymlaen gyda'r canllawiau addysgu gartref wedi golygu bod gwaith arall cysylltiedig ond ar wahân ar ddiogelu trwy wasanaethau cyffredinol (a fyddai o fudd i bob plentyn, nid dim ond y rhai sy'n cael eu haddysgu gartref) wedi syrthio hefyd. Er enghraifft, roedd gwaith wedi'i gynllunio i ddiweddarau canllawiau statudol 2017<sup>xxxii</sup> er mwyn helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg, a fyddai wedi manteisio ar y dyletswyddau cyfreithiol cryfach yng nghyswllt addysgu gartref. Cynigiwyd gwaith ar wella mynediad plant at wasanaethau cyffredinol hefyd, ond buasai'n hynny'n ddibynnol ar y cynigion cronfa ddata cysylltiedig â chroeswirio a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau. Nid oes modd symud ymlaen gyda'r naill na'r llall o'r rhain os na chaiff y ddeddfwriaeth a'r canllawiau addysgu gartref eu diweddarau yn ôl y galw.

Yn y papurau a welwyd gan CPC, ni chafwyd tystiolaeth bod hyn wedi cael ei ystyried yn agored ar unrhyw adeg wrth wneud y penderfyniad hwn.



Bydd y Llywodraeth ar y naill law yn cyfeirio at ddiogelu fel “cyfrifoldeb i bawb”, ond bydd hefyd yn ceisio gwahaniaethu rhwng materion diogelu ac addysg<sup>lxxxiii</sup>. Yng nghyd-destun ysgol, gall athro fod yn trafod materion addysg gyda dysgwyr, ac yn casglu gwybodaeth am faterion personol eraill neu bryderon diogelu ar yr un pryd, a hynny mewn ffordd naturiol trwy arsylwi a defnyddio gallu personol i farnu. Mae’n afrealistig awgrymu bod rhai sgysiau yn ymwneud ag addysg yn unig a bod eraill er mwyn diogelu; bydd unrhyw weithiwr proffesiynol profiadol bob amser yn meddwl am faterion ehangach mewn unrhyw drafodaeth o’r fath gyda dysgwyr neu eu teulu a’u ffrindiau. Yn yr un modd, byddai gweld plant a gwranddo arnyn nhw fel rhan o’r broses addysgu gartref yn digwydd yn bennaf er mwyn sicrhau a chefnogi eu hawliau i gael addysg, ond byddai hefyd yn cyfrannu at hawliau eraill, gan gynnwys diogelu.

Yn ymarferol, mae’r dull gweithredu hwn wedi golygu na fu symud ymlaen gyda materion polisi diogelu nac addysg, ac mae wedi niweidio’r ddealltwriaeth o rôl gweld plant a siarad â nhw ynghylch eu haddysg a mynediad at eu holl hawliau.

Mae’n amlwg o gyfarfodydd a gohebiaeth CPC fod pryder parhaus ynghylch gwaith ar draws y llywodraeth yn ystod y Tymor Senedd hwn; gyda gwahanol ymatebion yn dod oddi wrth y gwasanaethau cymdeithasol a swyddogion addysg, a Gweinidogion heb fod yn ymwybodol o safbwyntiau diweddaraf Llywodraeth Cymru bob tro<sup>lxxxiv</sup>.

Nid wyf wedi gallu canfod tystiolaeth gref o weithio cydlynus ar draws y Llywodraeth ar ddiogelu mewn materion addysg. Mae’r honiadau bod darnau o waith yn faterion diogelu, yn hytrach na materion addysg, a nodwyd uchod wedi dangos hynny<sup>lxxxv</sup>, ac mae’r diffyg ystyriaeth i gamau gweithredu cysylltiedig wrth benderfynu oedi’r gwaith ar ddewis addysgu gartref ac ysgolion annibynnol yn arwydd o ddull gweithredu digyswllt.

Ar ben hynny, mae cynifer o’r sgysiau ar hyd tymor y Senedd wedi cael eu cyfeirio gan ansicrwydd ynghylch a fyddai angen deddfwriaeth sylfaenol neu beidio i wneud newidiadau y mae Llywodraeth Cymru *wedi cydnabod, wedi derbyn ac wedi cytuno eu bod yn angenrheidiol ac yn bwysig* er mwyn cau bylchau a nodwyd.

Mewn ymateb i ymgynghoriad 2015 ar addysgu gartref, nododd llawer o ymatebwyr bryder fod y cynigion yn y canllawiau yn mynd y tu hwnt i ffiniau’r ddeddfwriaeth sylfaenol ar y pryd. Roedd y Llywodraeth felly wedi cael rhybudd y byddai cynigion oedd yn cael eu symud ymlaen trwy ddeddfwriaeth eilaidd naill ai’n agored i her bosibl neu’n annigonol.

Yn hytrach na derbyn y gwirionedd hwn, mae’r Llywodraeth wedi colli amser yn mynd ar ôl deddfwriaeth eilaidd a mesurau gwirfoddol, gan wybod yn iawn **na fydd y rhain yn ddigonol i wneud y newidiadau gofynnol**. Yn y diwedd, nid yw hyd yn oed y mesurau eilaidd hynny wedi’u rhoi ar waith, a chanlyniad net hynny yw na wnaed newidiadau i gryfhau diogelu mewn deddfwriaeth a chanllawiau addysg yn ystod y Tymor hwn.

Rwy’n sicr y byddai’r Llywodraeth yn cyfeirio at y gwaith adolygu a diwygio a wnaed ar y canllawiau yn ystod y Tymor hwn fel camau a gymerwyd. Fodd bynnag, oni bai bod y prosesau hynny’n gwella’r trefniadau ar gyfer diogelu hawliau plant a’r pethau ddylai fod ar gael iddynt, gellid barnu bod hwn yn wastraff ar amser ac adnoddau gwerthfawr, y buasai’n well eu cyfeirio i fannau eraill.



Mae'n anffodus iawn mai un o'r prif sylwadau y byddai'n rhaid eu gwneud ar sail yr Adolygiad hwn fyddai cymaint o waith a gyflawnwyd, ac eto cyn lleied o newid ystyrlon a ddaeth i rym o ganlyniad.

Fy nghanfyddiad, felly, yw bod Llywodraeth bresennol Cymru wedi methu ag ymateb yn ddigonol i'r:

- Dysgu a nodwyd wedi marwolaeth Dylan Seabridge yn 2011; a'r
- Pryderon diogelu yng nghyswllt ysgolion annibynnol y buont yn ymwybodol ohonynt ers o leiaf 2014.

Drwy wneud hyn, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ei dyletswyddau cyfreithiol yn unol â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'n ofynnol bod y Llywodraeth, o dan Erthygl 4 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, "yn ymgymryd â phob mesur deddfwriaethol, gweinyddol ac arall priodol i weithredu'r hawliau a gydnabyddir yn y Confensiwn presennol" a'm canfyddiad i yw nad yw hynny wedi digwydd.



# ARGYMHELLION

## Argymhelliad trosfwaol:

Rhaid i Lywodraeth bresennol Cymru fyfyrion ar ganfyddiadau'r adroddiad hwn a chyflwyno ymateb cyhoeddus, ysgrifenedig cyn i'r Senedd gael ei diddymu ym mis Ebrill 2021. Rhaid i'r ymateb hwnnw nodi pa gamau sy'n ofynnol i gyflawni'r newidiadau cyfreithiol angenrheidiol i ddiogelu hawliau plant wrth gael eu haddysgu gartref ac mewn lleoliadau ysgol annibynnol. Yn wyneb y pandemig a'r pwysau ar adnoddau cyfreithiol y Llywodraeth, dylai'r Llywodraeth gaffael cyngor cyfreithiol allanol os bydd angen i gyflawni'r argymhelliad hwn.

## Rhan un – Argymhellion polisi

- Mae angen newid deddfwriaethol ar frys yn chweched Tymor y Senedd, a hynny o ran addysgu gartref ac ysgolion annibynnol. Dylid gweld hyn fel blaenoriaeth ar gyfer y Llywodraeth sy'n dod i mewn ar sail yr adroddiad hwn.
  - O ran addysgu gartref, ni ellir colli rhagor o gyfleoedd. Mae'r Adolygiad hwn yn dod i'r casgliad ei bod hi'n bryd cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol er mwyn osgoi'r maglau ynghylch adnabod, gweld a siarad â phlant y mae'r Llywodraeth wedi bod yn ymdrechu'n aflwyddiannus i fynd i'r afael â nhw ar hyd y Tymor hwn.
  - Byddwn i'n ildio i gyngor cyfreithiol o ran a oes angen deddfwriaeth sylfaenol neu eilaidd i wneud y newidiadau angenrheidiol yng nghyswllt ysgolion annibynnol. Fodd bynnag, rhaid i'r Llywodraeth geisio diweddarau'r sefyllfa reoliadol yn sylweddol ynghylch ysgolion annibynnol, a sicrhau bod athrawon wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Mae modd cyflawni'r cyntaf trwy ddeddfwriaeth eilaidd, ond mae'n dal yn aneglur a oes angen deddfwriaeth sylfaenol er mwyn i staff ysgolion annibynnol gofrestru gyda'r EWC.

O ganlyniad, mae rhaid i'r Llywodraeth sicrhau eglurhad ynghylch y sefyllfa gyfreithiol fel mater o flaenoriaeth, er mwyn medru dechrau gweithio cyn gynted â phosibl i ganfod y llwybr y mae'n rhaid ei ddilyn er mwyn medru deddfu ynghylch y newidiadau hyn yn gynnar yn y chweched Tymor.



- Mae angen cyflawni diweddariad gwirioneddol o'r canllawiau Adolygiadau Ymarfer Plant, yn unol â'r Adolygiad a gomisiynwyd gan y Llywodraeth ei hun i roi sylw i'r materion canlynol:
  - Argaeledd hirdymor adroddiadau CPR gorffenedig;
  - Rôl y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol (NISB) gan gynnwys strwythurau atebolrwydd ar gyfer sicrhau bod argymhellion a dderbyniwyd yn cael eu gweithredu ar lefel ranbarthol a chenedlaethol;
  - Rôl Llywodraeth Cymru yn lledaenu dysgu yn genedlaethol ac yn gweithredu ar ganfyddiadau CPR sydd â chymhwysiad ehangach y tu hwnt i ardal y Bwrdd y maent yn deillio ohoni.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu a phenderfynu ar y ffordd orau o reoleiddio ac arolygu ysgolion annibynnol. Mae hyn yn effeithio ar niferoedd bach o blant yng Nghymru, ond serch hynny, mae'n galw am ganllawiau a chefnogaeth penodol, wedi'u diweddarau, sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau unigol. Mae angen adnoddau ac arbenigedd digonol i sicrhau bod y sector hwn yn cael ei reoli a'i gefnogi'n briodol.

## Rhan dau – arferion gwaith Llywodraeth Cymru

- Mae'n eglur bod materion lle roedd portffolios diogelu ac addysg yn gorgyffwrdd wedi syrthio droeon rhwng y ddau dîm, a chanlyniad hynny yn y pen draw oedd diffyg unrhyw newid deddfwriaethol. O ganlyniad, rwy'n argymhell bod y Llywodraeth yn sefydlu fîm Diogelu mewn Addysg gyda mewnbwn a chyfrifoldebau trawsadrannol, gyda digon o adnoddau i fedru cyflawni eu holl swyddogaethau mewn modd amserol sy'n cadw plant yn ddiogel ac yn cynnal eu holl hawliau.
- Dylai adroddiadau crynhoi ymgynghoriadau gael eu cyhoeddi'n brydlon ac mae angen mwy o dryloywder o ran sut mae'r ymatebion wedi cael eu trin a'u pwysoli. Dylid ystyried pennu terfyn amser ar gyfer cyhoeddi crynodebau o'r fath. Os bydd oedi anochel wrth gadw at derfyn amser o'r fath, dylid nodi hynny'n ysgrifenedig ar dudalen ymgynghori'r Llywodraeth, gan nodi'r amserlen ddiwygiedig a gynigir ar gyfer datrys y materion hyn, yn hytrach na'i adael yn benagored.
- Ar hyd fy nghyfnod fel Comisiynydd, rwyf wedi nodi mewn tystiolaeth i Bwyllgorau ac ymgynghoriadau'r Llywodraeth fy mhryderon ynghylch y diffyg CRIA o safon sy'n cael eu llunio i lywio a gyrru penderfyniadau polisi. Yn lle hynny, mae CRIA yn cael eu cwblhau'n hwyr yn y broses, i adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed eisoes, yn hytrach nag i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu datblygu i'r eithaf. Mewn rhai achosion ni chaiff CRIA ei gwblhau o gwbl. Mae llawer o ddogfennau'n nodi fy mhryderon yn y cyswllt hwn.



Ar sail yr Adolygiad hwn, nid wyf yn credu bod y Llywodraeth ar hyn o bryd yn cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol llawn o dan Fesur 2011. Mae'r diwygiadau arfaethedig i Gynllun Hawliau Plant 2014 yn gyfle delfrydol i wella a mireinio polisi a gweithdrefnau CRIA, ac i newid diwylliant ac arferion yn unol â hynny. Byddaf yn ymgorffori hyn yn fy ymateb ysgrifenedig i'r ymgynghoriad byw ar y Cynllun, ond hoffwn gyngori'r Llywodraeth i roi sylw pellach i hyn cyn i'r cyfnod ymgynghori hwnnw ddod i ben.

### Rhan tri – cylch gorchwyl a phwerau deddfwriaethol CPC

- 20 mlynedd yn ddiweddarach, mae angen i Lywodraeth Cymru adolygu deddfwriaeth Comisiynydd Plant Cymru a'i diweddarau yn unol â chanfyddiadau'r Adolygiad hwn ac adroddiad Pwyllgor PPIA y Senedd yn 2020 ar Hawliau Plant yng Nghymru. Mae hynny'n cynnwys edrych ar y canlynol:
  - Pwerau'r Comisiynydd i gael gafael ar ddogfennau fel rhan o Adolygiad statudol;
  - Pwerau'r Comisiynydd mewn perthynas â lleoliadau preifat yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion annibynnol;
  - Penodi i rôl y Comisiynydd a'i monitro er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag Egwyddorion Paris ar gyfer sefydliadau hawliau dynol annibynnol.



# Y CAMAU NESAF

Mae gan y Llywodraeth hyd at dri mis i ymateb yn ffurfiol i'm hadroddiad a'm hargymhellion.

Er bod yr ymateb i'r pandemig yn dal yn her barhaus, mae'r Llywodraeth wedi bod yn disgwyl i'r Adroddiad hwn gael ei gwblhau ers i ni eu hysbysu ynghylch yr Adolygiad yn gynnar ym mis Medi 2020, ac maent wedi cael gweld y ddogfen lawn ymlaen llaw, cyn iddi gael ei chyhoeddi. Fel y nodwyd, dyma'r tro cyntaf i'r pŵer cyfreithiol hwn gael ei ymarfer mewn perthynas â Gweinidogion Cymru, ac o'r herwydd ni allaf orbwysleisio pwysigrwydd ymateb clir gan y Llywodraeth bresennol i'r adroddiad hwn.

Nid wyf yn rhagweld bod modd cyflawni'r camau a argymhellir yn yr adroddiad hwn cyn etholiad Mai 2021, ond rwy'n bendant yn disgwyl i'r Llywodraeth bresennol ymateb yn llawn. Mae angen i'w hymateb gael ei roi, er mwyn pennu cyfeiriad camau gweithredu yn y dyfodol, gan gynnwys camau yn ymwneud ag arferion y gwasanaeth sifil, na ddylai unrhyw newidiadau i gyfansoddiad gwleidyddol y Llywodraeth effeithio arnynt.

Fel mae'r adroddiad hwn ei hun wedi canfod, mae perygl 'parcio' camau polisi anodd ar ddiwedd tymor Llywodraeth yn arwain at oedi gormodol a pheidio â symud pryderon dilys ymlaen. Rôl y gwasanaeth sifil yw sicrhau yr ailafaelir yn y math yma o bryderon, yn arbennig lle maent yn ymwneud â diogelu plant, ar ddechrau tymor y Llywodraeth newydd.

Ni ddylai hyn gael effaith ar allu Llywodraethau'r dyfodol i gyflawni eu hymrwymadau maniffesto. Yn syml iawn, ni ellir cael system lle mae pob Llywodraeth i bob pwrpas yn gorfod 'ailgychwyn' ymchwilio i faterion sy'n destun pryder, a sefydliadau'n amlygu'r angen am newid o'r newydd bob pum mlynedd. Nid dyna sut mae system lywodraethu aeddfed a chyfrifol yn gweithredu, ac nid dyna'r dull gweithredu ddylai fod gennym yma yng Nghymru, yn arbennig mewn perthynas â materion ynghylch diogelu plant, a ddylai gael eu cefnogi ar draws y pleidiau.

Yn ogystal â disgwyl ymateb ffurfiol gan y Llywodraeth bresennol, byddaf yn sicrhau bod yr adroddiad hwn hefyd yn cael ei drafod gyda'r Llywodraeth newydd yn dilyn etholiad Mai 2021 i'r Senedd, er mwyn sicrhau bod ei ganfyddiadau'n parhau i dderbyn sylw ac yn destun gweithredu'n unol â hynny.

Mae hawl gan blant yng Nghymru i fynnu rhywbeth gwell gan eu gwasanaethau cyhoeddus os nad yw eu hawliau'n cael eu cynnal. Rhaid i Lywodraeth sy'n gwbl ymroddedig i hawliau plant sicrhau nad yw'r hawliau hynny'n cael eu gwthio o'r neilltu gan fuddiannau neu flaenoriaethau sy'n cystadlu â nhw, na chwaith bod materion sy'n cael eu hystyried yn 'rhy anodd eu cyflawni' yn effeithio arnynt nhw. Fel pencampwr annibynnol hawliau'r plant hyn, rwyf wedi manteisio ar bob cyfle posibl i ailadrodd y pwyntiau hyn ar bob lefel yn y Llywodraeth, ac eto mae'r Adolygiad hwn yn dangos lle mae Llywodraethau olynol wedi methu â chyflawni yn y cyswllt hwn. Nawr yw'r amser i symud y tu hwnt i ymrwymadau geiriol i hawliau plant a geiriau cynnes; mae ein plant yn disgwyl ac yn haeddu mwy, ac rwy'n disgwyl am ymateb cyflawn gan y Llywodraeth hon.





# ATODIAD A: RHESTR GYFEIRIADOL

---

Adolygiad Comisiynydd Plant Cymru o sut mae Llywodraeth Cymru yn ymarfer eu Swyddogaethau

## Diffiniadau allweddol

"Dewis Addysgu Gartref" -

Mae dewis addysgu gartref yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio penderfyniad gan rieni, gofalwyr maeth neu warcheidwaid i ddarparu addysg yn y cartref ar gyfer eu plant yn hytrach na'u hanfon i'r ysgol. Nid gwersi gartref a ddarperir gan awdurdod addysg lleol yw hyn, na chwaith ddarpariaeth addysg gan awdurdod addysg lleol mewn man heblaw ysgol.

"Ysgol Annibynnol" —

Ysgol annibynnol yw unrhyw ysgol sy'n darparu addysg amser llawn i ddisgyblion oed ysgol gorfodol ond nad yw'n cael ei chynnal, ei rheoli na'i hariannu gan awdurdod lleol.

Ystyr "plentyn" a "plant" yw person(au) o dan 18 oed.

"Rhieni" —

Dylid cymryd bod rhieni'n cynnwys pawb sydd â chyfrifoldeb rhiant, gan gynnwys gwarcheidwaid a gofalwyr maeth.

"Llywodraeth Cymru"-

Roedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu ar gyfer sefydlu Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru, Cwnsler Cyffredinol Cymru a Dirprwy Weinidogion Cymru. Ar hyd y Rhestr



Gyfeiriadol hon, dylid cymryd bod 'Llywodraeth Cymru' yn cynnwys yr holl swyddi hyn ar y cyd.

"CCUHP" —

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

"Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011" -

Dyma'r gyfraith yng Nghymru sy'n gofyn bod gweinidogion Llywodraeth Cymru yn rhoi sylw i CCUHP wrth ymarfer eu swyddogaethau.

### **Pwrpas adolygiad y Comisiynydd ("yr Adolygiad")**

Mae Adran 72B o Ddeddf Safonau Gofal 2000<sup>lxxxvi</sup> yn rhoi pŵer i Gomisiynydd Plant Cymru ("y Comisiynydd") adolygu sut mae Gweinidogion Cymru yn ymarfer eu swyddogaethau. Mae'r Comisiynydd yn bwriadu ymarfer y pŵer hwn mewn perthynas â phenderfyniadau Llywodraeth Cymru ynghylch plant, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ddiogelu ac addysg. Ceir manylion llawn isod.

I osgoi amheuaeth, fel y nodwyd yn Neddf Safonau Gofal 2000, mae "Gweinidogion Cymru" yn cynnwys ymarfer unrhyw un o swyddogaethau "Gweinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu Gwnsler Cyffredinol Cymru". Bydd gweithredoedd unrhyw Weision Sifil sy'n ymarfer swyddogaethau gweinidogol ar ran Gweinidog perthnasol yn cael eu cynnwys yn yr Adolygiad hwn.

### **Cefndir**

Mae gan bob plentyn hawl i dderbyn addysg addas. Mae'r rhan fwyaf o blant yng Nghymru yn cael eu haddysgu mewn ysgol, ond mae rhai rhieni, gofalywyr maeth a gwarcheidwaid yn dewis addysgu eu plant gartref. Fodd bynnag, mae pryder nad yw lleiafrif bach, o bosib, yn derbyn addysg addas, ac mae gan y Llywodraeth ac awdurdodau lleol rôl i'w chwarae wrth sicrhau nad yw plant yn colli addysg, yn ogystal â chefnogi teuluoedd ag addysg gartref.

Mae rhai plant yn cael eu haddysgu mewn ysgolion annibynnol; mae'r rhain yn cynnwys plant o Gymru, yn ogystal â phlant o weddill y Deyrnas Unedig a manau ar draws y byd.

Mae'r Comisiynydd a'i swyddfa, ochr yn ochr â rhanddeiliaid eraill perthnasol, wedi ymdrechu droeon dros nifer o flynyddoedd i wella'r fframwaith cyfreithiol mewn perthynas â phlant y dewisir eu haddysgu gartref, plant sy'n colli addysg, a phlant sy'n mynychu Ysgolion Annibynnol yng Nghymru. Mae'r Comisiynydd hefyd wedi bod yn pryderu ynghylch sicrhau ymateb addas gan Lywodraeth Cymru i'r pryderon a godwyd gan achos Dylan Seabridge, yn arbennig ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad Ymarfer Plant a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2016, wedi i Dylan farw yn 2011.

Mae'r Comisiynydd presennol a'i thîm wedi cynnull a mynychu cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol gyda swyddogion a Gweinidogion, wedi mynychu cyfarfodydd rhanddeiliaid, wedi cyfranogi mewn trafodaethau gydag asiantaethau allanol, ac wedi ymateb i ymgynghoriadau niferus gan Lywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill.

Gwnaed ymdrechion droeon hefyd gan rhanddeiliaid i wella'r fframwaith rheoleiddio ynghylch Ysgolion Annibynnol, ond ni wnaed cynnydd gyda'r rhain er gwaethaf pryderon yn ddiweddar ynghylch ysgol yng ngogledd Cymru.



Cyflwynodd adroddiadau blynyddol y Comisiynydd ar gyfer 2016-17<sup>lxxxvii</sup>, 2017-18<sup>lxxxviii</sup> a 2018-19<sup>lxxxix</sup> argymhellion i Lywodraeth Cymru ar gyfer cryfhau'r canllawiau a'r sefyllfa gyfreithiol ar bwnc Dewis Addysgu Gartref, a hynny er mwyn amddiffyn plant y dewisir eu haddysgu gartref, a hefyd i amddiffyn y rhai sydd heb gofrestru gyda lleoliadau addysg. Mae'r argymhellion ffurfiol hyn wedi cael eu derbyn, yn rhannol neu'n llawn, gan Lywodraeth Cymru.

Mae canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol ynghylch Dewis Addysgu Gartref yn anstatudol.<sup>xc</sup> Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol i rieni hysbysu na cheisio cymeradwyaeth yr awdurdod lleol lle maen nhw'n byw i addysgu eu plant gartref.

Mae rhaid i bob Ysgol Annibynnol yng Nghymru gofrestru gyda Llywodraeth Cymru<sup>xc</sup>, ond nid oes gofyniad ffurfiol iddyn nhw ddilyn canllawiau a gweithdrefnau diogelu fel Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol Cymru Gyfan. Mae pwerau gorfodi'r ddwy arolygiaeth, Estyn ac AGC, yn gyfyngedig, fel y gwelwyd yn sgîl pryderon 2019 ynghylch ysgol yng ngogledd Cymru. Ar ben hynny, nid oes rhaid i staff a gyflogir mewn Ysgolion Annibynnol gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.

Ymhlith nodau strategol y Comisiynydd ar gyfer 2019-2022 mae ffocws ar Ddiogelu eich hawliau, ble bynnag rydych chi — bod Cymru'n wlad sy'n parchu hawliau plant ym mhob lleoliad addysg, gan gynnwys plant sy'n cael eu haddysgu gartref. Mae'r Comisiynydd yn dal i bryderu ynghylch hawliau plant sy'n cael eu haddysgu mewn Ysgolion Annibynnol neu gartref, ac yn arbennig ynghylch y penderfyniadau mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud am y grwpiau hyn o blant.

## Cwmpas yr Adolygiad

Bydd y cwmpas yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i adolygiad o ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Ymarfer Plant Dylan Seabridge, rhoi ymrwymadau cyhoeddus ar waith, y sail ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch addysgu gartref ac ysgolion annibynnol yn Llywodraeth Cymru ac ystyried hawliau plant o dan CCUHP ar draws yr holl waith yma.

Nod yr Adolygiad yw llunio argymhellion ynghylch y camau nesaf y dylid eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawliau plant a addysgir gartref neu mewn Ysgolion Annibynnol.

Wrth adolygu sut mae Gweinidogion Cymru yn ymarfer eu swyddogaethau, bydd y Comisiynydd yn canolbwyntio'n bennaf ar ymarfer swyddogaethau sy'n ymwneud â diogelu ac addysg mewn perthynas â meysydd polisi addysgu gartref ac ysgolion annibynnol, er y gallai materion ehangach sy'n ymwneud â hawliau plant godi hefyd, gan eu bod yn gysylltiedig â'r prif bwnc.

Prif nod y Comisiynydd o ran deddfwriaeth yw "diogelu a hybu hawliau a lles plant", ac mae'n rhaid i'r Comisiynydd roi sylw dyledus i CCUHP yn ei gwaith.

Mae gofyn bod Gweinidogion Cymru yn rhoi sylw dyledus i CCUHP wrth ymarfer eu swyddogaethau, o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Bydd hyn yn un o ystyriaethau allweddol yr Adolygiad.

## Methodoleg

Tim prosiect fydd yn cynnwys y Comisiynydd a staff sy'n rhan o'i thîm fydd yn cynnal yr Adolygiad.



Bydd fîm y prosiect yn dadansoddi unrhyw bapurau sydd eisoes ar gael iddyn nhw neu sydd yn y parth cyhoeddus fel arall. Ar ben hynny, i'w chynorthwyo i gynnal yr Adolygiad, bydd y Comisiynydd hefyd yn cyflwyno cais am gopiau o rai dogfennau sydd eisoes yn bodoli, ar gychwyn y broses. Er eglurder, bydd hyn yn cynnwys dogfennau sydd eisoes yn bodoli yn unig; ni ofynnir i'r Llywodraeth gynhyrchu unrhyw bapurau na dogfennau newydd.

Ni fydd dogfennau nad ydynt yn y parth cyhoeddus, a rennir gyda'r Comisiynydd ar gyfer yr Adolygiad hwn, yn cael eu cyhoeddi gan y Comisiynydd, ac ni fydd yn dyfynnu'n uniongyrchol ohonynt, ond fe'u defnyddir i lywio canfyddiadau'r Comisiynydd. Gallwn hefyd geisio copïau o ddogfennau gan asiantaethau allanol eraill fel sy'n berthnasol i Delerau'r Adolygiad hwn. Cedwir yr holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r Adolygiad hwn yn unol â deddfwriaeth diogelu data perthnasol a pholisi cadw dogfennau'r Comisiynydd.

Gall y Comisiynydd gynnwys Grŵp Cyfeiriadol i ddarparu cyngor. Byddai aelodau o'r grŵp hwn yn derbyn yr adroddiad drafft terfynol yn unig. Bydd pob gwybodaeth bersonol a sensitif yn cael ei diogelu'n briodol ac yn cael ei darparu i'r Comisiynydd Plant a'i chyflogeion yn unig. Byddai disgwyl i aelodau Grŵp Cyfeiriadol gydymffurfio â pholisïau mewnol y Comisiynydd ynghylch cyfrinachedd, deddfwriaeth diogelu data berthnasol, a pholisi cadw dogfennau'r Comisiynydd.

Ar ôl ystyried y dogfennau, gall Swyddfa'r Comisiynydd ofyn hefyd am gyfweiliadau gyda phersonél allweddol o Lywodraeth Cymru, yn ôl y galw, i egluro pwyntiau a godwyd gan y dogfennau. Ar hyn o bryd, ni ragwelir y byddwn yn cynnal unrhyw gyfweiliadau na sgysiau strwythuredig, ond bydd hynny'n cael ei adolygu'n barhaus.

Mae'r Comisiynydd yn cadw'r hawl i gyflwyno argymhellion ar unrhyw bwnc sy'n rhan o'i chylch gwaith statudol ar ddiwedd yr Adolygiad.

## Amserlen

Bydd yr Adolygiad yn cychwyn ar 21 Medi 2020.

Cyflwynir cais ffurfiol am bapurau i Lywodraeth Cymru pan gychwynir yr Adolygiad. Y terfyn amser i Lywodraeth Cymru anfon y papurau y gofynnwyd amdanynt at y Comisiynydd yw 30 Hydref 2020.

Bydd y gwaith o ddadansoddi'r dogfennau sydd eisoes ym meddiant y Comisiynydd yn cychwyn ar ddechrau'r Adolygiad.

Yn ystod mis Tachwedd 2020 bydd unrhyw bapurau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael eu dadansoddi. Os na chaiff dogfennau eu darparu, bydd yr adolygiad yn parhau yn unol â'r amserlen a gyflwynwyd yn y Rhestr Gyfeiriadol hon, gan ddefnyddio unrhyw ddogfennau sydd ar gael i'r Comisiynydd.

I gloi'r Adolygiad, cynhyrchir adroddiad drafft, gan gynnwys canfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y Comisiynydd.

Anfonir yr adroddiad drafft at Lywodraeth Cymru, a fydd yn cael pythefnos i ddarparu sylwadau ar yr adroddiad drafft. Anfonir yr adroddiad terfynol, yn cynnwys canfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y Comisiynydd at Brif Weinidog Cymru bythefnos wedi hynny, ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Comisiynydd.



Gan fod yr Adolygiad hwn yn cael ei gynnal yn unol â phwerau cyfreithiol ffurfiol y Comisiynydd, bydd disgwyl i Lywodraeth Cymru ymateb o fewn tri mis i'r adroddiad<sup>xcii</sup>.

Ar gychwyn yr Adolygiad, rhagwelir y bydd yr Adolygiad yn dod i ben ar neu cyn 31 Rhagfyr 2020.

Os bydd y Comisiynydd yn dod i'r casgliad bod angen cyfweiliadau pellach i lunio fersiwn derfynol yr Adolygiad, mae'r Comisiynydd yn cadw'r hawl i estyn terfynau amser yr Adolygiad.

Os digwydd hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn cael eu hysbysu'n ysgrifenedig erbyn 17 Rhagfyr 2020 fan bellaf (2 wythnos cyn y dyddiad a ragwelwyd ar gyfer gorffen yr adolygiad).

DIWEDD.



# Ôl-nodiadau

- <sup>i</sup> [Deddf Safonau Gofal 2000 \(legislation.gov.uk\)](#) Rhan V
- <sup>ii</sup> [Deddf Safonau Gofal 2000 \(legislation.gov.uk\)](#) Adran 72A
- <sup>iii</sup> [Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 \(legislation.gov.uk\)](#)
- <sup>iv</sup> [Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001 \(legislation.gov.uk\)](#)
- <sup>v</sup> [Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001 \(legislation.gov.uk\)](#) Rheoliad 22
- <sup>vi</sup> [Deddf Safonau Gofal 2000 \(legislation.gov.uk\)](#)
- <sup>vii</sup> Mae'r diffiniad o'r rhiant yn cynnwys unrhyw berson sy'n rhiant naturiol i'r plentyn, unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant, neu unrhyw berson sydd â gofal am y plentyn (A.576 o Ddeddf Addysg 1996).
- <sup>viii</sup> Rheoliad Addysg 9(2) (Cofrestru Disgyblion), 1995.
- <sup>ix</sup> Rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion)(Cymru) 2010.
- <sup>x</sup> Rheoliad 12(3) o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010.
- <sup>xi</sup> Canllawiau statudol er mwyn helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg, Llywodraeth Cymru 2017 [statutory-guidance-help-prevent-children-young-people-missing-education.pdf \(gov.wales\)](#)
- <sup>xii</sup> Gwahardd o ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion, Llywodraeth Cymru 2019 [Exclusion from schools and pupil referral units \(gov.wales\)](#)
- <sup>xiii</sup> Canllawiau ar hysbysiadau cosb am ddiffyg presenoldeb rheolaidd mewn ysgolion, Llywodraeth Cymru 2013 [Guidance on penalty notices for regular non-attendance at schools \(gov.wales\)](#)
- <sup>xiv</sup> Canllawiau Anstatudol ar Ddewis Addysgu Gartref i Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru 2017 [30384\\_Non statutory guidance on elective home education \(gov.wales\)](#)
- <sup>xv</sup> <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/all-wales-attendance-framework.pdf> Mae'r ddogfen hon yn darparu safonau a chanllawiau ar gyfer ymarferwyr i sicrhau mwy o gysondeb yn eu hymarfer ledled Cymru. Mae hefyd yn ceisio galluogi'r Gwasanaeth Lles Addysg ac ysgolion i gyflwyno gwasanaethau sy'n gyson, yn hygyrch ac o safon uchel. Y bwriad yw ei fod yn becyn offer ymarferol o adnoddau i'w defnyddio gan staff sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Lles Addysg, ac mae'n cynnwys cyfuniad o ganllawiau, safonau ac enghreifftiau o arfer da.
- <sup>xvi</sup> Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan, Arweinlyfr gweithredol i'r Gwasanaeth Lles Addysg, Llywodraeth Cymru 2011 [all-wales-attendance-framework.pdf \(gov.wales\)](#)
- <sup>xvii</sup> Canllawiau statudol er mwyn helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg, Llywodraeth Cymru 2017 [statutory-guidance-help-prevent-children-young-people-missing-education.pdf \(gov.wales\)](#)
- <sup>xviii</sup> Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru ar Addysgu Gartref — Canllawiau Statudol i Awdurdodau Lleol a Llawlyfr i Addysgwyr Gartref, Dyddiad rhyddhau: 29 Gorffennaf 2019 [consultation-document-home-education.pdf \(gov.wales\)](#)
- <sup>xix</sup> Canllawiau Statudol er mwyn helpu i atal Plant a Phobl Ifanc rhag colli addysg, Llywodraeth Cymru 2017 [statutory-guidance-help-prevent-children-young-people-missing-education.pdf \(gov.wales\)](#)
- <sup>xx</sup> [Rheoliadau Ysgolion Annibynnol \(Darparu Gwybodaeth\)\(Cymru\) 2003 \(legislation.gov.uk\)](#)
- <sup>xxi</sup> [Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol \(Cymru\) 2003 \(legislation.gov.uk\)](#)
- <sup>xxii</sup> Canllawiau cofrestru a gweithredu Ysgolion Annibynnol, Llywodraeth Cymru 2014 [Teitl y Ddogfen: Independent Schools Information and Registration \(gov.wales\)](#)
- <sup>xxiii</sup> Canllawiau cofrestru a gweithredu i Ysgolion Annibynnol, Llywodraeth Cymru 2014 [Teitl y Ddogfen: Independent Schools Information and Registration \(gov.wales\)](#)
- <sup>xxiv</sup> Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Preswyl, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2003 [131009nmsboardingschoolsen.pdf \(careinspectorate.wales\)](#)
- <sup>xxv</sup> Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Preswyl Arbennig, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2003 [130910msspecialschools.pdf \(careinspectorate.wales\)](#)
- <sup>xxvi</sup> Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, Llywodraeth Cymru 2020 [keeping-learners-safe-the-role-of-local-authorities-governing-bodies-and-proprietors-of-independent-schools-under-the-education-act.pdf](#)
- <sup>xxvii</sup> Canllawiau cofrestru a gweithredu Ysgolion Annibynnol, Llywodraeth Cymru 2014 [Teitl y Ddogfen: Independent Schools Information and Registration \(gov.wales\)](#)





- <sup>xxviii</sup> [Rheoliadau Addysg \(Ysgolion Annibynnol\)\(Personau Anaddas\)\(Cymru\) 2009](#)
- <sup>xxix</sup> <http://safeguardingboard.wales/find-your-board/>
- <sup>xxx</sup> <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/working-together-to-safeguard-people-volume-2-child-practice-reviews.pdf>
- <sup>xxxi</sup> [Review of the implementation of the Child Practice Review Framework | GOV.WALES](#); Atodiad B eitem 4
- <sup>xxxii</sup> Ni chyhoeddwyd yr adolygiad hwn, ond mae canfyddiadau'r gwaith wedi cael eu rhannu gyda CPC ar lafar gan swyddogion y Llywodraeth.
- <sup>xxxiii</sup> <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/working-together-to-safeguard-people-volume-2-child-practice-reviews.pdf>
- <sup>xxxiv</sup> [Findings from a thematic analysis of Child Practice Reviews in Wales - Safeguarding Board Wales](#); Atodiad B eitem 97
- <sup>xxxv</sup> Enghreifftiau o Atodiad B: eitem 6 cwestiwn brys gan AC ym mis Ionawr 2016, eitem 36 cwestiwn gan AC ym mis Rhagfyr 2017, eitem 52 llythyr gan fwrdd diogelu CYSUR at Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2018, eitemau 59 a 60 llythyron CPC at Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2018, eitem 63 cyfarfod CPC gyda'r gweinidog Addysg ym mis Medi 2018, eitem 67 cyfarfod CPC gyda Phrif Weinidog Cymru ym mis Hydref 2018, eitem 68 llythyr CPC at y PW ym mis Tachwedd 2018, eitem 91 cyfarfod CPC gyda'r Gweinidog Addysg ym mis Hydref 2019, eitem 103 llythyr CPC at Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2020 ac eitem 105 datganiad cyfatebol CPC, eitem 106 methiant LIC i sôn am yr achos mewn ymateb i llythyr cynharach CPC, Gorffennaf 2020, eitem 108 llythyr ADSS Cymru at Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2020
- <sup>xxxvi</sup> Atodiad B eitemau 2 a 22, canllawiau anstatudol LIC 2017
- <sup>xxxvii</sup> Atodiad B eitemau 9, 16, 19, 45, 49, 53, 64, 80, 89
- <sup>xxxviii</sup> Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg mewn manau a hefyd at y Gweinidog Addysg. Yr un swydd yn y Cabinet sydd dan sylw; newidiwyd y teitl yn 2018, ond ni fu newid yn neilydd y swydd na'r cyfrifoldebau o ran y meysydd hyn.
- <sup>xxxix</sup> Atodiad B eitem 41 datganiad y Gweinidog i'r sesiwn lawn
- <sup>xl</sup> Enghreifftiau yn Atodiad B: eitem 54 llythyr CPC at Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2018, eitem 57 ymateb LIC ym mis Gorffennaf 2018, eitem llythyr CPC at Brif Weinidog Cymru ym mis Medi 2018, eitem 67 cyfarfod CPC gyda'r PW ym mis Medi 2018, eitem 69 llythyr LIC yn ymateb i CPC ym mis Tachwedd 2018, eitem 74 cyfarfod CPC gyda swyddogion LIC ym mis Rhagfyr 2018, eitem 89 cyfarfod CPC gyda swyddogion LIC ym mis Medi 2019, eitem 90 adroddiad blynyddol CPC, eitem 91 cyfarfod CPC gyda'r Gweinidog Addysg ym mis Hydref 2019.
- <sup>xli</sup> Enghreifftiau yn Atodiad B: eitem 41 datganiad sesiwn lawn cronfa ddata "resymol gyflawn" / "fwyaf cyflawn" ym mis Ionawr 2018, eitem 45 ateb i gwestiwn ysgrifenedig yn cyfeirio at gronfeydd data lluosog, yn ogystal ag at "y gronfa ddata" ym mis Chwefror 2018, eitem 52 llythyr CYSUR yn cyfeirio at gynigion y Llywodraeth ar gyfer "cronfeydd data lleol" ym mis Mehefin 2018, eitem 74 cyfarfod CPC gyda swyddogion LIC ym mis Rhagfyr 2018 yn cyfeirio at ddryswch ynghylch pwy fyddai'n berchen ar y gronfa ddata neu'n ei gweithredu, eitem 76 cyfarfod Ionawr 2019 o'r grŵp rhanddeiliaid — y cynllun nawr yw bod 22 o gronfeydd data (yn yr ALLau unigol) yn hytrach nag un gronfa ddata, eitem 80 ym mis Ebrill 2019 — dim ond yn ddiweddar roedd gwaith ar gynigion y gronfa ddata wedi cychwyn, ond dywedwyd "the One Wales database is the way it will go". Dal yn aneglur ynghylch eiddo pwy fyddai'r gronfa. Eitem 85 datganiad i'r wasg gan LIC yn nodi y byddant yn ymgynghori ar ALLau yn sefydlu cronfeydd data, felly nŵl at 22 o gronfeydd data. Eitem 89 ym mis Medi 2019, cyfarfod gyda swyddogion LIC, LIC yn nodi mai meddalwedd sydd dan sylw mewn gwirionedd, ac nid cronfa ddata. 22 o gronfeydd data i'r ALLau yw'r hyn a roddwyd gerbron yn ymgynghoriad 2020 (eitem 98)
- <sup>xlii</sup> Atodiad B eitem 30 llythyr gan swyddog LIC
- <sup>xliii</sup> Atodiad B eitem 41 datganiad sesiwn lawn
- <sup>xliv</sup> Atodiad B eitem 98 ymgynghoriad LIC ar gynigion cronfa ddata
- <sup>xlv</sup> Atodiad B eitem 49 nodyn o gyfarfod mewnol CPC
- <sup>xlvi</sup> Atodiad B eitem 57 llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
- <sup>xlvii</sup> Atodiad B eitem 64 adroddiad blynyddol CPC 17-18
- <sup>xlviii</sup> Atodiad B eitem 51 llythyr CPC at swyddog LIC
- <sup>xlix</sup> Atodiad B eitem 64 LIC yn derbyn 'mewn egwyddor' argymhellion adroddiad blynyddol CPC
- <sup>i</sup> [Children's commissioner in home education 'war of attrition' - BBC News](#)
- <sup>ii</sup> Atodiad B eitem 84 gohebiaeth e-bost CPC a LIC
- <sup>iii</sup> Atodiad B eitem 95 nodiadau cyfarfod grŵp rhanddeiliaid addysgu gartref
- <sup>iiii</sup> Atodiad B eitem 94 cyngor cyfreithiol David Woolfe QC
- <sup>lv</sup> Enghreifftiau o Atodiad B: eitem 36 ymateb i gwestiynau llafar ym mis Rhagfyr 2017, eitem 49 cyfarfod CPC gyda swyddogion ym mis Mai 2018, eitem 58 cyfarfod CPC gyda swyddogion ym mis Awst 2018, eitem 74 cyfarfod CPC gyda swyddogion ym mis Rhagfyr 2018, eitem 76 cyfarfod grŵp rhanddeiliaid DAG (EHE).





- <sup>lv</sup> Enghreifftiau o Atodiad B: eitem 53 llythyr Gweinidogol ym mis Mehefin 2018, eitem 57 llythyr Gweinidogol ym mis Gorffennaf 2018 oedd yn nodi "mae'n hanfodol ein bod ni'n gwneud hyn yn iawn".
- <sup>lvi</sup> Atodiad B eitem 32 adroddiad CASCADE
- <sup>lvii</sup> Atodiad B eitem 13 dyfyniadau o ddatganiad sesiwn lawn
- <sup>lviii</sup> Eitemau 9 a 10 yng ngohebiaeth LIC yn Atodiad C
- <sup>lix</sup> Atodiad C eitem 4 crynodeb o Gyfnod 1 y craffu gan y Pwyllgor PPIA ar Ddeddf Addysg (Cymru) 2014
- <sup>lx</sup> Atodiad C eitemau 6 a 7, datganiad y Gweinidog a'r adroddiad a gyhoeddwyd
- <sup>lxi</sup> Tystiolaeth ynghylch codi/trafod y mater hwn gyda LIC o Atodiad C: eitemau 2, 4, 5, 6, 7, 12, 21, 23, 24, 25, 27, 32, 35, 37, 40, 41, 43, 45, 46, 50, 51, 52, 53, 57.
- <sup>lxii</sup> Eitem 33 yn Atodiad C, nodyn o gyfarfod
- <sup>lxiii</sup> Enghreifftiau o Atodiad C: Eitem 24; nodiadau o gyfarfod amlasiantaeth yn 2019 yn dangos bylchau gwybodaeth ynghylch pwerau LIC fel rheoleiddiwr, mae Eitem 47, gohebiaeth, yn nodi bod disgwyl dyletswydd gyfreithiol nad yw'n benodol berthnasol i ysgolion annibynnol, mae Eitem 67 yn dangos diffyg gwybodaeth ynghylch y sefyllfa reoliadol a'r canllawiau sy'n berthnasol i ysgolion annibynnol yn 2020.
- <sup>lxiv</sup> [Deddf Safonau Gofal 2000 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk) Adran 78
- <sup>lxv</sup> Eitem 33 yn Atodiad C nodyn o gyfarfod
- <sup>lxvi</sup> Eitemau 43 a 44 yn Atodiad C nodiadau cyfarfod a gohebiaeth
- <sup>lxvii</sup> Appendix B entry 115 CCfW annual report 19-20
- <sup>lxviii</sup> Atodiad B eitem 4 Adroddiad Cordis Bright 2015, eitem 13 datganiad sesiwn lawn ym mis Gorffennaf 2016, eitem 16 dadansoddiad o lythyr Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Awst 2016, eitem 26 llythyr CPC ym mis Ebrill 2017 ac eitem 28 ymateb Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2017, eitem 59 llythyr CPC at LIC ym mis Medi 2018, eitem 97 NISB (Adroddiad Thematig Prifysgol Caerdydd)
- <sup>lxix</sup> Atodiad B eitem 13 datganiad sesiwn lawn ym mis Ionawr 2018
- <sup>lxx</sup> Atodiad B eitem 87 dogfennau ymgynghori ac adroddiad crynodol 2019
- <sup>lxxi</sup> Atodiad B eitem 106 llythyr y Gweinidog Addysg
- <sup>lxxii</sup> Enghreifftiau o Atodiad B: eitem 2 CRIA a gyhoeddwyd yn 2015 gyda chynigion ymgynghori wedi'i nodi'n syml â "Ni nodwyd gwrthdaro ag erthyglau CCUHP", eitem 20 ni roddodd Ysg y Cab sylw i'r cyfeiriadau penodol at hawliau plant yn y drafodaeth ym mis Gorffennaf 2016, eitem 32 nododd adroddiad CASCADE 2017 ddiwyg cydymffurfio â CCUHP gan LIC ym mis Hydref 2017, eitem 41 nid yw datganiad y sesiwn lawn ond yn rhestru erthyglau CCUHP a ystyriwyd, eitem 57 nid yw asesiad effaith integredig ymgynghoriad 2019 ond yn cyfeirio at Erthygl 4 a 'chadw CCUHP mewn cof' (cydnabyddir bod CPC wedi rhoi cyngor ynghylch y CRIA yma, ond heb gyfrannu at y cynnwys), eitem 80 CPC awgrymodd ychwanegu cyfeiriadau at CCUHP at ganllawiau drafft Ebrill 2019, eitem 93 bu'r cyngor cyfreithiol yn cwestiynu ystyriaeth LIC i CCUHP, eitem 106 **Ni chynhaliwyd CRIA ynghylch penderfyniadau i beidio â symud ymlaen gyda gwaith polisi** fel y nodwyd yn llythyr y Gweinidog Addysg ym mis Gorffennaf 2020.
- <sup>lxxiii</sup> Atodiad C eitem 45 gohebiaeth rhwng LIC a WISC
- <sup>lxxiv</sup> Enghreifftiau o Atodiad B: eitem 57 llythyr LIC at CPC ym mis Gorffennaf 2018, eitem 62 llythyr gan Brif Weinidog Cymru at CPC yn nodi'r holl amser oedd yn cael ei dreulio ar y gwaith oedd yn parhau ym mis Medi 2018, eitem 91 cyfarfod CPC gyda'r Gweinidog Addysg ym mis Hydref 2019, eitem 95 gohebiaeth e-bost yn dilyn cyfarfod rhanddeiliaid ym mis Tachwedd 2019, eitem 101 cyfarfod CPC gyda swyddogion LIC ym mis Mai 2020, eitem 102 cyfarfod CPC gyda'r Gweinidog Addysg ym mis Mehefin 2020, eitem 104 datganiad ysgrifenedig LIC ym mis Mehefin 2018, eitem 109 cyfarfod NISB gyda LIC ym mis Awst 2020.
- <sup>lxxv</sup> [Deddf Safonau Gofal 2000 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk) Adran 78
- <sup>lxxvi</sup> <https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld13405-r/cr-ld13405-r-e.pdf>
- <sup>lxxvii</sup> <https://business.senedd.wales/documents/s105741/Welsh%20Government%20response%20-%202023%20September%202020.pdf>
- <sup>lxxviii</sup> Atodiad B eitem 2 CRIA ar gyfer ymgynghoriad 2015
- <sup>lxxix</sup> Edrychir yn fanwl ar y mater hwn yn adroddiad Pwyllgor PPIA y Senedd ar Hawliau Plant yng Nghymru <https://senedd.wales/laid%20documents/cr-ld13405-r/cr-ld13405-r-e.pdf>
- <sup>lxxx</sup> Dylid cydnabod yma i CPC gael cyfle i drafod CRIA drafft gyda swyddogion polisi trwy broses y Grŵp Ymgynghorol ar Hawliau Plant (CRAG).
- <sup>lxxxi</sup> Atodiad B eitem 42 datganiad sesiwn lawn
- <sup>lxxxii</sup> [statutory-guidance-help-prevent-children-young-people-missing-education.pdf \(gov.wales\)](https://www.gov.wales/statutory-guidance-help-prevent-children-young-people-missing-education.pdf)
- <sup>lxxxiii</sup> Enghreifftiau o Atodiad B: eitem 2 adroddiad ymgynghoriad 2015, eitem 48 nodyn o gyfarfod grŵp rhanddeiliaid ym mis Mai 2018,



<sup>lxxxiv</sup> Enghreifftiau o Atodiad B: eitem 63 nid yw'r gweinidog plant ar y pryd wedi gweld gohebiaeth CPC gyda'r PW, ac roedd angen o hyd am asesu a fyddai'r cynigion yn ymateb yn ddigonol i achos Seabridge ym mis Medi 2018, mae eitem 70 yn cyfeirio at y 'rhyfel athreuliad' wrth symud materion ymlaen ar draws LIC ym mis Tachwedd 2018, eitem 102 mae cyfarfod CPC gyda'r Gweinidog Addysg yn dangos y bydd gwaith traws-lywodraethol yn methu oherwydd nad yw'r gwaith ar addysgu gartref yn gwneud cynnydd, eitemau 106 a 110 mynegodd y Gweinidog Addysg siom nad oedd y materion hyn, sy'n rhan o'i phortffolio, yn gwneud cynnydd,

<sup>lxxxv</sup> Enghreifftiau o Atodiad B: Eitem 2 adroddiad ar ymatebion ymgynghori 2015, eitem 48 cyfarfod grŵp rhanddeiliaid EHE, eitem 74 cyfarfod CPC gyda swyddogion ym mis Rhagfyr 2018, eitem 89 cyfarfod CPC ym mis Medi 2019

<sup>lxxxvi</sup> <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/14/section/72B>

<sup>lxxxvii</sup> <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2017/10/A-Year-of-Change-CCFW-Annual-Report.pdf>

<sup>lxxxviii</sup> <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2018/09/Annual-Report-2017-18.pdf>

<sup>lxxxix</sup> <https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2019/10/Annual-Report-2018-19.pdf>

<sup>xc</sup> <https://beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/elective-home-education-non-statutory-guidance-for-local-authorities.pdf>

<sup>xc1</sup> [https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-05/handbook-independent-schools-registration-and-operation-guidance\\_0.pdf](https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-05/handbook-independent-schools-registration-and-operation-guidance_0.pdf)

<sup>xcii</sup> <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2001/2787/regulation/14/made>

